


LLYFR HAF



LLYFR ANTEFILLIAID AC ADAR
GAN SYR OWEN EDWARDS

1875

Abraham Lincoln

Clodwen E Jones
Rhyanja
C. J. Jones

GAN YR UN AWDUR

LLYFR DEL. Lliain, 2/-

LLYFR NEST: Lliain, 2/-

LLYFR OWEN. Lliain, 2/-

LLYFR HAF. Lliain, 2/-

CARTREFI CYMRU. Lliain, 2/-

YSTRAEON O HANES CYMRU

Lliain Ystwyth, 1/3.

Cyfres Gwerin Cymru

Lliain Unffurf, 2/6 yr un.

CLYCH ATGOF.

YN Y WLAD.

TRO YN LLYDAW.

ER MWYN CYMRU.

TRO YN YR EIDAL.

LLYNNOEDD LLONYDD.

O'R BALA I GENEVA.

HUGHES A' I F A B,
CYHOEDDWYR, WRECSAM



YR YCH GWYLLT

(Cwiler tudalen 20.)

CYFRES LLYFRAU DEL. IV.

LLYFR HAF

(Llyfr Anifeiliaid, etc., ac Adar)

GAN

SYR OWEN EDWARDS

WRECSAM
HUGHES A'I FAB

1926

ARGRAFFWYD YNG NGHYMRU

CYNNWYS

RHAN I. ANIFEILIAID, ETC. :

	TUD.
ANIFEILIAID Y BYD NEWYDD	11
Y MOLOCH PIGOG	13
TEULU'R ARMADILLO	17
CYRN CARW	19
YR YCH GWYLLT	20
Y GNU	23
CAMEL Y MYNDDOEDD	25
EIRTH Y MYNDDOEDD CREIGIOL	29
YR ARTH WEN	33
Y TSIMPANSÎ	35
YR OPOSUM	37
YR YSBRYDION	39
Y GLWTH	41
YR HEN BEDOL	43
Y MORLO BRITH	45
Y MANATÎ	47
CWNINGOD	49
YR EOG	53
Y DYRNOGYN	57
LOCUSTIAID	59
PRYFED TAN	63
LLIW YN AMDDIFFYN	65
NADROEDD	69
TEULU'R GENEU GOEG	71
UN HYLL (Y CROCODEIL)	75
Y CRWBAN	77
CRWBAN Y MÔR	81


CYNNWYS

RHAN II. ADAR:

	TUD.
DYCHWELIAD YR ADAR	85
YR YSGUTHAN	87
YR WYLAN BENDDU	89
ERYR Y MÔR	91
PIBGANYDD Y GRAIG	95
YR HWYAIÐ EIDER	97
YR EHEDYDD	101
ELEIRCH DUON	105
Y CIWI	107

RHAN III:

GOFYNION A GEIRFA	109
-----------------------------	-----





ANIFEILIAID Y BYD

LLYFR HAF

I

ANIFEILIAID Y BYD NEWYDD

1. **Y** MAE llid rhwng anifeiliaid y byd hwn. Y mae'r naill yn byw trwy ladd a llarpio'r llall. Nid yw cym y carw yn ddigon o amddiffyn iddo rhag dannedd llymion a phalf nerthol y llew. Gall carnau yr asyn ystyfnig fod yn angau i'r mwnci cyfrwysaf. Brwydr ffyrnig fuasai rhwng gwaedgwn ac arth, gref ei hewinedd. Ac y mae pig pob aderyn yn ddychryn i rywbeth llai.

2. Ac eto, yn ôl proffwyd a rachelaf Israel, y mae heddwch i deyrnasu ymhlith holl anifeiliaid y ddæar. "A'r blaidd a drig gyda'r oen, a'r llewpard a orwedd gyda'r myn; y llo hefyd, a chenaw y llew, a'r anifail bräs, fyddant ynghyd. A bachgen bychan a'u harwain. Y fuwch hefyd a'r arth a borant ynghyd, eu llydnod a gydorweddant; y llew, fel yr ych, a bawr wellt. A'r plentyn sugno a chwery wrth dwll yr asp; ac ar ffau y wiber yr estyn yr hwn a ddiddyfnwyd ei law. Ni ddrygant, ac ni ddi-fethant, yn holl fynydd fy santeiddrwydd, canys y ddæar a fydd lawn o wybodaeth yr Arglwydd, megis y mae y dyfroedd yn toi y môr."

3. Bu cawrfilod hyllion, dychrynlyd eu gwedd, ofnadwy eu grym, yn cerdded y ddaear ac yn nofio'r moroedd. Ond y maent wedi diflannu. Nid y cryf, nid yr hwyaf ei ddannedd a grymusaf ei grafanc, nid hwnnw sydd yn aros. Yr un a erys yw'r caredig a dof. Dyna drefn natur o hyd. Ac yn y byd newydd, pan fydd gwybodaeth wedi amlhau eto ychwaneg, bydd holl anifeiliaid y byd mewn heddwch â'i gilydd, oherwydd eu bod yn dymuno bod felly.


Y MOLOCH PIGOG

1. **D**YMA i chwi un o bethau hyllaf y ddaear. Enw hen dduw'r tân yw Moloch; y mae sôn amdano yn y Beibl. A gair Lladin am bigog neu ddraenog yw Horridus.

2. Creadur bychan yw'r Moloch hwn, rhyw bum modfedd o hyd; pe gosodech ef ar y ddalen hon, buasai digon o le iddo droi heb syrthio oddiarni. Yn rhai o ardaloedd sychion a phoethion Awstralia y mae yn byw. Ni wna unrhyw niwed i chwi; ond pe digwyddech eistedd arno, nid arno ef y buasai'r bai.

Y mae natur wedi rhoi pigau i rai i'w hamddiffyn; gwelwch hwy ar ei ben, ei wddw, ei gefn, ei gorff afrosgo, ei goesau dilun, a'i gynffon hagr. Y mae'r pigau yn ei wneud yn ddiogel a chysurus, ac nid yw ef yn eu gweld yn hagr. Gwyr na all dim ei frathu ond iddo gau ei lygaid a chau ei geg.


Mewn dull gwahanol iawn y mae natur yn amddiffyn plentyn bach. Rhydd dllysni ar ei rudd, a hoffter yn ei lygaid. Nerth plentyn yw ei ddiniweidrwydd,—bod heb bigau. Ond y mae ambell ddyn yn mynnu magu pigau. Y mae yn meddwl yn ddrwg am bobl eraill, y mae ei deimlad yn suro, tybia fod pawb yn ei erbyn, y mae ei enaid yn bigau drosto i gyd. Meddwl eraill yn dda o bawb, y mae eu gwên heulog, a'u gair caredig, a'u cymwynas barod yn ednabyddus i bawb.



MOLOCH HORRIDUS

3. Mae gan y Moloch berthynasau tebyg iddo yn yr India, yn yr Aifft a Phalestina, ac yng nghanolbarth yr Amerig,—pob un â'i bigau.

Diffannu o'r byd y mae pethau hyllion. Y mae creaduriaid sydd â dannedd cryfion, rheibus, fel rhai'r llew; neu rai ag ewinedd nerthol, fel rhai'r dywalgi; neu rai sydd â phig ysglyfaethus, fel un yr eryr; neu rai â gwenwyn yn eu dannedd, fel y wiber,—y mae'r rhai hyn oll, a'u tebyg, yn darfod o'r byd. Ond am greaduriaid dof, tirion, diniwed, fel y fuwch a'r ddafad, y mae y rhai hynny yn amlhau ac yn llenwi'r ddaear. Y mae plant cas, angharedig, yn darfod o'r tir; a phlant bach mwyn yn etifeddu'r ddaear.



Y POYOU

III

TEULU'R ARMADILO

1. **T**TEULU rhyfedd yw teulu'r Armadilo, a'r Poyou yw'r lleiaf o'r tylwyth. Yn Neheudir America y maent yn byw, yn y gwledydd cynnes a ddyfrheir gan afonydd Amason a La Plata. Yn y coedwigoedd yr hoffant fod.

2. Y peth rhyfeddaf yw eu gwisg. Arfwisg yw. Mae helm ar eu pen, llurig am eu hysgwyddau, a gwisg o gragen gaerog am eu cefn. Er yr edrych y Poyou yn hyf a dewr arnoch, ni wna niwed i chwi. At ba beth y mae'r ewinedd hirion acw? At durio i'r ddaear, a dianc rhagoch. Ond medr y creadur redeg hefyd, bron cyn gynted â chwithau.

Mae ei lais fel llais mochyn, a chelanedd yw ei fwyd.

Hagr iawn yw creaduriaid mewn arfwisg, ond diniwed. Un cymharol fychan yw'r Poyou.



CARW COCH IEUANC

CYRN CARW

1. **U**N o bethau rhyfedd natur yw cynn y carw. Pan fydd wedi gorffen tyfu, y mae'r cynn yn fawr ac yn ganghennog, yn asgwrn caled a miniog; a gwae i'r neb yr ymosodant arnynt.

Pan fo'r ceirw'n ieuaine, cynn i'w cynn dyfu, eu harddwch a'u diniweidrwydd yw eu hamddiffyniad. "Tlws pob peth bychan."

Pan fydd y cynn yn dechrau tyfu, bydd gwisg o groen byrflew drostynt. Y mae hwn yn esmwyth fel melfed; a phan fydd y cynn yn ieuaine, dywedir eu bod "yn eu melfed."

2. Pan fydd y cynn felly, bydd y carw yn fwyn a diniwed. Cilia yn swil i'r goedwig, ac ni wna ddrwg i neb. Ond wedi i'r cynn dyfu'n fwy, syrthia y croen melfedaidd cddiarnynt; rhwbia y carw hwy yn erbyn y coed, neu planna hwy i'r ddaear. Yn raddol cryfha a chaleda y cynn nes mynd yn asgwrn caled. Yna y mae'r carw yn barod i ymosod ac i ymladd.

YR YCH GWYLLT

1. **C**HWI welwch ar wyneb-ddalen y llyfr hwn anifail sy'n prysur gilio o flaen gwareiddiad, sef yr ych gwyllt.

Y mae'r ych gwyllt, yr auroch, bron a diflannu o'r hen fyd, os nad ydyw wedi gwneud. Ei gartref olaf yn Ewrob oedd Poland a Rwsia, hyd fynyddoedd Caucasus, lle y daliodd ei dir yn hir yn erbyn dyn, arth, a blaidd.

Ond yng Ngogledd Amerig y gwyddom ni fwyaf amdano. Yno crwydrai tros hanner cyfandir, o'r Great Slave Lake yn y gogledd hyd gyffiniau Mecsico yn y de. Ar hyd y paith maith gwelid gyrrcedd o hono yn cynnwys miliynau, ac yn duo'r ddaear cyn belled ag y gwelai'r llygad. Byddai raid i'r trê arafu, ac aros weithiau, gan dyndra'r gyr. Erbyn heddiw y mae'n prysur ddiflannu.

Beth yw'r gwahaniaeth rhyngddo ac ych dof neu wartheg? Ei fwng, ei gorn byr, y crwmach ar ei ysgwydd, ei daldra,—y mae'r tarw'n chwe throedfedd o uchter. Hoff ganddo ymdrybaeddu yn y llaid, i gael gwasgod i rwystro pryfed rhag ei bigo. Nid yw mor berygl ag yr edrych, creadur llonydd ac ofnus yw ond pan fo wedi ei gynddeiriogi.

2. Bu'r Indiaid cochion yn genhedloedd lluosog yn yr Amerig, yn pabellu yma ac acw ymysg yr ychen gwyllt, ac yn byw ar helwriaeth. Ond cyflym ddarfod y maent hwythau ers blynyddoedd lawer. Pan oeddwn i'n blentyn clywem lawer o hanes eu creulonderau at y dyn gwyn,—fel y llosgent ei gartref unig yn y coed, fel y lladdent ei wraig a'i blant diniwed, fel y gwisgent grwyn pennau dynol wrth eu gwregys. Ond, erbyn hyn, nid oes ond ychydig ohonynt yn aros ; ac y maent yn awr yn dirion, a hyd yn oed yn prynu sebon. Y mae cenedl fwy na hwy yn awr yn eu gwlad.

Mae'r fuwch flith a'r ych dof yn fwy cymwys i fyw yn awr, ac nid oes le i'r heliwr cadarn mwy,— yn oes heddwch y byd. A phan ddiffanna ymherawdwy'r gyda'r auroch a'r ysbeiliwr, daw heddwch llariaidd i fyd dyn hefyd.



Y GNU

Y GNU

1. **D**YMA un o'r creaduriaid rhyfeddaf yn y byd. Y mae fel pe wedi ei gymysgu o rannau amryw creaduriaid eraill. Y mae iddo fwng fel llew ar ei war, a barf fel gafr dan ei ên. Y mae iddo ben fel ych, clustiau fel asyn, a chynffon fel merlyn, a choesau fel ewig.

Wrth edrych ar ei ben, meddyliech mai tarw bychan gwyllt yw, ei lygaid cochion yn fflachio, ac yntau'n gwneud osgo fel pe am ruthro arnoch a'ch codi â'i gyrn cam, bachog. O'r tu ôl edrych fel merlen fuandroed a diniwed.

Y mae ei fygythiad yn debycach i ruad llew nag i weryriad march; ciccia fel march.

2. Yn Neheudir Affrig y mae'n byw. Ni fwyteir ef, ac felly nid oes cymaint o hela arno ag sydd ar y carw. Nid yw'n ddinistriol fel y llew ychwaith, ac felly ni helir cymaint arno er mwyn mwynhau perygl. Felly, yn ôl pob tebyg, erys yn y tir gwyllt a breswylia'n awr.

Y mae ei liw rhwng llwyd-ddu a dugoch. Y mae ei fwng a'i gynffon yn wyn, ei farf yn ddu.

Edrych yn llawer mwy barus nag ydyw, oherwydd y blew sydd dan ei lygaid.

Y mae ei symudiadau'n afrosgo a digrif, fel pe buasai ei wahanol rannau yn methu deall ei gilydd. Ond y mae'n effro iawn ; a phan ddaw perygl, gall ei wneud ei hun yn bur erchyll i edrych arno,— ei ruad byr, bygythiol, ei lygaid cochion yn fflachio tân, ei gyrn fel pe'n barod i rwygo ei ymosodydd, ei draed yn lluchio yn ôl ac ymlaen mewn cynddaredd.

Nid yw cymaint ag ych neu farch, mae'n debycach i faint llo neu ferlen, ac felly nid yw yn greadur peryglus iawn.

Pan garlama gyr ohonynt hyd y meysydd gwelltog, a'u cynffionnau gwynion yn chwyfio, y mae'r olygfa yn un na ellir ei hanghofio.

CAMEL Y MYNYDDOEDD


1. **Y** MAE'R lama yn debyg iawn i'r camel. Ond y mae'n llawer llai, ac nid oes ganddo grwb ar ei gefn.

Nid ar anialdiroedd tywodlyd Asia y mae ef yn byw, ond ar fynyddoedd creigiog De Amerig. Nid yw ei droed wedi ei wneud, fel troed y camel, at gerdded tywod, eto, y mae y meddalwch sydd dano yn peri iddo fedru cerdded hyd gerrig yn esmwyth a dilafur.

2. Nid oedd ceffylau na mulod yn y wlad lle ceir y lama ; ac am hynny, hwy sy'n cario pynau. Ond, heblaw hynny, y maent yn greaduriaid defnyddiol iawn ; bwyteir eu cnawd, gwneir dillad o'u blew, gwneir esgidiau o'u crwŷn. Felly, y maent yn gamel ac yn geffyl ac yn ddafad.

Ar eu cefn hwy y cairwyd aur Peru o'r mynyddoedd, i lawr hyd y llwybrau creigiog i'r môr. Ychydig a fwytant, a medrant gerdded siwrneion hirion ym mhoethter yr haul.


Medrant gario tua chanpwys ar eu cefn. Collant eu tymer pan roir llwyth rhy drwm arnynt, poerant mewn cynddaredd. Pan fônt wedi blino, gorweddant i lawr ; ac ni chodant, faint bynnag a gurir arnynt. Pan fydd dyn yn eu marchogaeth, a



Y LAMA

hwythau'n rhy flin i fynd ymhellach, troant ato, a phoerant boer i'w wyneb.

Ond er eu bod yn ystyfnig, ac yn mynnu eu ffordd eu hunain, y maent yn amhrisiadwy o werthfawr i bobl y gwledydd y maent yn byw ynddynt.



ARTH Y MYNYDDOEDD CREIGIOL

EIRTH Y MYNYDDOEDD CREIGIOG

1. **L**AWENHA plant Cymru wrth weled y gwanwyn a'r haf yn dod. Y mae'n dda ganddynt gael y tywydd cynnes. braf, a gweld y gwair ar y dolydd, a'r blodau ar ochrau'r ffyrdd. A hoff ganddynt weld y gwartheg yn y caeau, a chlywed yr adar yn y coed. Ond yr hoffaf peth yw gweld a chlywed hen gyfeillion fu i ffwrdd ymhell o'r wlad yn y gaeaf du. Y pennaf o'r rhai hyn yw y wennol a'r gog. A mawr yw eu croeso, a chroeso yr haf sy'n dod a hwy.

Ond beth pe buasai'r arth yn dod gyda hwy, o ryw goed yn ymyl eich tŷ. Nid arth wen fawr y pegwn yr wyf yn meddwl,—ar bysgod y mae hi yn byw, ac y mae yn weddol ddiniwed os gadewch lonydd iddi a chadw o'i llwybr. Ac nid arth lwyd Ewrob yr wyf yn meddwl ychwaith, un a fu yng Ngbymrŷ gynt; nid ar gig y mae hithau'n byw, ond ar lysiau, a hoff ganddi fêl a morgrug yn amheuthun.

2. Am arth y Mynyddoedd Creigiog, yn yr Amerig, yr wyf yn sôn. Bydd yr eirth hyn yn cysgu drwy'r gaeaf. Pe byddech yn mynd am dro trwy'r coed,


hwyrach bod arth yno, yn cysgu'n drwm, dan ddail sychion, melyn, a chwrlid o eira gwyn.

Ond gyda'r gwanwyn deffry. A bydd yn wancus am fwyd ar ôl ei hympryd hir. Rhuthra o'r coed i chwilio am rywbeth i dorri ei newyn. Y pethau fydd ar ei llwybr weithiau,—a gwae iddynt,—fydd iyrehod, defaid, wŷn, a phlant.

3. Chwi wyddoch am y Mynyddoedd Creigiog. Cadwyn anferth ydynt, ar hyd Gogledd Amerig, fel asgwrn cefn y wlad. I'r gorllewin y mae llain hir o daleithiau rhwng y mynyddoedd hyn a glannau'r Môr Tawel,—Alasca eirïog, Columbia oludog, Oregon ffrwythlawn, California hyfryd, ac Arisona sech. Yr ochr arall, rhyngddynt ac Iwerydd, y mae toreth taleithiau Canada, yr Unol Daleithiau, a Meesico. Ni wn yn siwr i ba drefydd y mae'r arth hon yn erwydro. Ond pe elwn tua Donald yn Columbia, Boisé yn Idaho, Dinas y Llyn Halen yn Uta, buaswn yn gofyn i bobl y ffordd haearn a welsant hwy eirth y mynyddoedd. Byddai ar Indiaid Wyoming arswyd wrth feddwl am yr arth, a thalent ryw fath o addoliad iddi; ond bwytaent ei chig mewn gloddest mawr wedi ei lladd.

Y mae hyd yr arth yn naw troedfedd ; felly, pan saif ar ei thraed ôl, y mae'n dalach na'r un dyn. Pwysa wyth gan pwys ; hawdd iddi, felly, lethu dyn trwy ei wasgu yn erbyn coeden. Gall ladd ych yn pwyso mwy na hi ei hun, a'i lusgo i'w lloches. Ychydig o obaith, yn wir, sydd i'r neb y cydia hon â'i hewinedd nerthol amdano.

Pwy fuasai'n gadael Cymru lân, lle gall plant ganu a chysgu'n dawel ; gŵyr pawb na ddaw hon o'i chwsg yn ein gwlad ni.



YR ARTH WEN


Y R A R T H W E N

1. **Y** MAE eirth duon a llwydion lawer yn y byd, o Rwsia i'r India a Ceylon, yn yr Hispaen, ac yn yr America, yn Syria a Phalesteina.

Ond, yn rhyfedd iawn, ymysg mynyddoedd rhew y Pegwn y ceir yr arth fwyaf, sef yr Arth Wen. Nid oes yno ddeilen werdd i'w gweled, heb sôn am forgrug gwynion a mêl gwenyn,—hoff ddanteithfwyd yr eirth eraill. Yno nid oes ond talpiau o rew noethlwm, a nos dros yr holl wlad trwy fisoedd y gaef. Ond y mae yno ddigon o bysgod, ac ar forloi, yn bennaf, y mae'r eirth yn byw.

2. Y mae'r Arth Wen yn creadur cryf ac anferth. Y mae weithiau'n naw troedfedd o hyd, yn gydnorth, ac yn ffyrnig. Nid yw'n hollol wen; rhyw felynwen ydyw, o liw hufen. Gwelir hi'n crwydro'n hamddenol ac afrosgo dros y talpiau rhew i chwilio am wyau adar, neu hyd wyneb rbewedig y môr i wyllo morlo'n dod at dwll yn y rhew i anadlu.

Er cadarned a ffyrniced yw, gall un Escimo, a'i wedd o gŵn, ei hymlid a'i lladd. Bwytânt ei chig yn awchus.



Y TSIMPANSI

Y TSIMPANSÎ

1. **P**AN yn fychan iawn, y mae'r Tsimpansî yn debyg i blentyn drwg, croes, garw iawn am ei feddwl ei hun. Daeth un ieuanc i'r wlad yma unwaith, ac yr oedd yn hoff o wraig a edrychai ar ei ôl fel pe buasai fam iddo. Weithiau cerddai wrth ei hochr ar ei draed ôl, gan gydio yn ei gown, fel plentyn.

2. Ryw dro, wrth chwarae ag ef, daliodd gŵr bonheddig ddrych bychan o'i flaen. Synnodd, aeth yn berffaith lonydd ar unwaith, edrychai'n fud ar ei lun yn y drych, ac yroedd fel pe'n rhyfeddu. Edrychodd i fyny ar y dyn, yna dechreuodd ail edrych ar y drych. Yr oedd bysedd y dyn wrth ddal y drych yn y golwg; teimlodd y mwnci y rhai hynny'n fanwl, yna ceisiodd weld beth oedd y tu ôl i'r drych. Rhoddodd ei ddwylo yn sydyn y tu ôl iddo; ac wrth deimlo nad oedd dim yno, yr oedd ei syndod yn fwy.

A fuoch chwi ryw dro yn dal drych o flaen cath fach? Os do, yr ydych yn cofio ei hystryw ddiniwed i geisio dal y gath fach a welai'n edrych arni o'r drych.

3. Dywedir fod dyn a'r Tsimpansî yn perthyn i'r un tylwyth. Ond y mae'r berthynas yn bell iawn, nid yw ond perthynas corff yn unig.

Peth rhyfedd iawn fod ar y Tsimpansî arswyd y sarff. Rhed yn union at ddyn i gael amddiffyn.




YR OPOSUM

YR OPOSUM

1. **A** WELWCH chwi mor ddefnyddiol yw cynffon gref ddi-flew yr Oposum? Gyda hi medrant ddringo coed a disgyn i lawr o'r canghennau. A chyda hi y medrant gario eu rhai bach ar eu cefn. Medr y rhai bach, hefyd, ddefnyddio eu cynffonnau o'u mebyd.

2. Tebyg i gath o ran maint yw'r Oposum. Y mae'n llawn egni, ac yn bur ddeallus. Cymer arno fod wedi marw pan ddelir ef; ond toc, i ffwrdd ag ef. Yn un peth, y mae'n debyg iawn i fachgen drwg, â ag wyau o nyth aderyn. Sugna waed adar, hefyd. Paham, tybed, y mae ei glustiau'n dduon? Yn rhannau deheuol Gogledd America y ceir ef, yn enwedig ym Mecsico.



Y LEMUR

A.F. - yden

YR YSBRYDION

1. **Y** MAE tri theulu mawr yn meddu rhyw debygrwydd corff i'w gilydd, sef teulu dyn, teulu'r mwnci, a theulu'r lemur.

Gair Lladin am ysbrydion yw *lemures*. Gelwir y lemuriaid yn ysbrydion oherwydd mai yn y nos y gwibiant drwy'r coedwigoedd. Yn y dydd y daw'r mwncïod allan, a bydd y goedwig y maent yn byw ynddi yn llawn o brysurdeb a sŵn tra fo'r haul yn tywynnu; ond wedi machlud haul, distawa popeth. Ond am y goedwig y mae'r lemuriaid yn byw ynddi, y mae honno'n ddistaw fel y bedd yn ystod y dydd. Ond gyda'r gwyll, gwelir bodau eiddil, ystwyth, â llygaid fflamlyd, a gyddfau gwynion, yn neidio'n heinif a distaw rhwng canghennau'r coed, a thybiodd llawer un ofer-goelus mai ysbrydion oeddynt. Y mae eu sŵn yn annaeacol hefyd; rhed eu llais tros y nodau yn uwch, uwch o hyd, a gallech feddwl bod eu holl nerth yn mynd i'w hudiad.

2. Ynys dywyll Madagascar, gyda'i hin boeth a'i choedwigoedd aml, yw eu cartref. Gellir eu dofi, ac y maent yn hynod ddigrif a chwareus. chwaraeant â phellen fel cath fach, a gwnânt bob math o driciau direidus. Ond yn y nos yn unig y chwaraeant. Yn y dydd y maent yn swrth a chysglyd; ond deffroant at y nos, ac ni byddant yn llonydd am un munud.

Pam y mae eu llygaid mor fawr? Oherwydd mai yn y nos y chwiliant am eu bwyd, ac y mae eu llygaid yn fawr er mwyn gweld yn well yn y tywyllwch, fel llygaid cath neu lygaid tylluan. Trychfilod ac adar bychain yw eu bwyd.

3. Pam y mae eu blew mor gynnes, a hwythau'n byw mewn gwlad mor boeth? Am eu bod yn greaduriaid pur anwydog, ac am mai yn y nos y codant allan.

Beth ydyw da eu cynffon hir? Yn gynhesrwydd ebe rhai. Troant hi am eu gyddfau weithiau. Dywed eraill mai cymorth iddynt wrth gerdded y canghennau, fel y mae gan ddyn yn cerdded rhaff bolyn hir yn ei ddwylo i gadw ei gydbwysedd, yw'r gynffon.

Ond eu traed neu eu dwylo yw y pethau rhyfeddaf a feddant. Y maent wedi eu haddasu at deimlo popeth, at gydio yn ddiollwng, ac at dorri cwmp y creadur ysgafn ac ystwyth os syrth.

Y GLWTH

1. **Y** GLWTH yw'r mwyaf o deulu'r wenci. Y mae ganddo berthynasau mwy, yn perthyn yn bellach iddo, yn enwedig yr arth.


Cafodd ei enw ar gam. Tybid ei fod yn fwy glwth na'r un creadur arall, a'i fod yn hoff o fwyta mwy na'i lond. Ond nid yw hyn yn fwy gwir amdano nag am lawer creadur arall.

Ceir ef yng ngogledd yr hen gyfandir a'r newydd, yn enwedig yn Siberia a Khamstchatka.

2. Afrosgo yw o'i gymharu â llawer o'i berthynasau chwim, megis y wenci a'r carlwm. Ond y mae ganddo, nid yn unig nerth rhyfeddol o fawr, ond deallgarwch sydd bron yn ddynol. A digrif yw ystraeon helwyr am ei gastiau, yn enwedig fel y medr ddianc rhag eu rhwydau hwy. Cerdda'n ofalus heibio i'r trapiau. Os bydd y trap wedi dal carlwm, bwyta'r Glwth ef. Os bydd y trap yn wag, bwyta'r abwyd sydd ynddo ; ond bydd ganddo ryw ddyfais bob amser i rwystro'r trap rhag cau ar ei drwyn. Y mae ei gallineb yn hyn o beth, meddir, yn fwy na llwynogaidd, y mae bron yn ddynol.

Mewn un peth arall y mae'n debyg iawn i ddyn. Pan wêl rywun yn dod, eistedd i lawr yn hamddenol, a chysgoda ei lygaid â'i balf i edrych pwy sy'n dod.

3. Y mae ambell anifail direswm fel hyn, a'i ymddygiad mor debyg i ymddygiad dyn, fel y mae ar yr heliwr ofn ei saethu.



MARCH YR ARAB

YR HEN BEDOL

1. **U**N o greaduriaid prydferthaf y byd ydyw'r march Arabaidd. Y mae'n lluniaidd, yn wisgi, ac yn dlws. Yn yr anialwch tywodlyd y mae'n byw. Medr redeg yn fuan, a dal ati am hir. Ef yw hoff gyfaill yr Arab. Heb ei farch ni allai fyw. Pe collai ei farch yn y diffeithwch maith, collai ei fywyd. Pan fydd wedi colli'r ffordd, ac yn rhy luddedig bron i feddwl, gad i'r march fynd fel y mynno. Ac y mae'r creadur ffyddlon yn sier o'i ddwyn adref, neu ddod ag ef at ddwfr i dorri ei syched.

2. Anaml y mae'r wlad yn greigiog iawn, tywodlyd ydyw gan mwyaf. Ac am hynny ni fydd yr Arab yn pedoli ei feirch. Yn wir, ni wŷr beth ydyw pedol. Rhyw dro, yr oedd Arab ar daith heb fod ymhell o ddinas Mosul. Wrth groesi'r diffeithwch, beth a welai ar lawr ond hen bedol. Cododd hi, a rhyfeddai beth ydoedd. Ond ni fedrai ddyfeisio beth oedd.

Aeth a hi gydag ef adref. Safodd holl ddoethion ei lwyth mewn barn uwch ei phen. Ac wedi hir gyngor, penderfynwyd mai hen leuad wedi gwisgo allan, ac wedi syrthio o'r nefoedd i'r ddâear, oedd hi.



MORLO

Y MORLO BRITH


1. **U**N o'r morloi lleiaf yw hwn, rhyw dair neu bedair troedfedd o hyd. Ceir ef ar dueddau deheuol Greenland, o gwmpas Ynys yr Ia, ac ar lannau Spitzbergen.

Pan yn ieuanc y mae'n wyn, gyda gwawr felen, a'r blew'n grych. Fel y tyf, try ei liw yn wyrdd tywyll, gyda llanerchau modrwyog gwynion hyd ei gefn.

2. Y mae'r morloi hyn yn heigio moroedd y gogledd, ond lleddir hwy, gan ddyn yn enwedig, wrth yr hanner can mil y flwyddyn. Y maent yn hanfodol i'r Escimo; eu crwyn yw eu dillad, a'u cig yw eu bwyd.

Erys yr Escimo yn amyneddgar uwchben y tyllau yn y rhew lle daw'r morlo i anadlu. Yna rhoddant dryfer ynddo, a thynnant ef i'r lan.

3. Gall y morlo fyw ar y tir ac yn y dŵr. Gall ddianc rhag dyn i'r dwfr dan y rhew; gall ddianc rhag ei elynion o'r dwfr i wyneb y rhew. A rhwng chwarae yn y dwfr, gorffwys ar y rhew, ac ymheulo ar y creigiau, nid yw ei fywyd heb ei ddedwyddwch.




MANATÍ

Y MANATI^Â

1. **M**AE llawer creadur rhyfedd yn nheulu'r morfil. Mae'r Manati'n byw yn afonydd mawr Affrig,—Senegal, Niger, a Chongo; yn yr Amerig yn llynnoedd Surinam, Guiana, a Jamaica; ac yn afon Amazon. Ei fwyd yw'r planhigion sy'n tyfu o waelod ac o ochrau yr afonydd mawrion hyn. Tawel yw ei fywyd, o'i gymharu â bywyd ei geraint yn y môr mawr, agored, ystormus.

2. Delir hwy'n ieuainc weithiau, a dofir hwy. Rhoddir rhyw llyn yn gartref iddynt, a gofelig eu bod yn cael digon o fwyd. Bu un ohonynt yn byw mewn llyn felly am chwe blynedd ar hugain. Deuai at lan y llyn bob bore i gael ei fwyd; a gadawai i blant fynd ar ei gefn, a chlodai hwynt yn hamddenol hyd wyneb y llyn.



CWNINGOD

C W N I N G O D

1. **Y**M mis Awst, pan fydd yr haul yn gynnes ar y caeau, a digon o lysiau gwyrddion ymhobman, gallech feddwl bod y cwningod yn hapus iawn. Ac, yn wir, felly y maent.

Y mae cartref y cwningod yn noddfa ddiogel iddynt. Cloddiant dwll yn y ddaear, ac yna gwnânt dynel hir, ac yno, ymhell o gyrraedd dyn a chi, y mae eu lloches glyd. Bryniau tywodlyd sychion sydd wrth eu bodd i wneud eu cartref ynddynt, yn enwedig os bydd llwyni o eithin ar hyd-ddo. Turiant yn hawdd i'r bryn tywodlyd, ac y mae ganddynt ddigon o le i lawr yn eu cartref tywyll ond clyd a sych.

2. Yn rhai o'r ystafelloedd hyn y megir y rhai bychain. Y maent hwy yn bur ddiamddifyn,— yn noethion a deillion pan yn fabanod. Ond y mae y fam wedi gwneud eu nyth yn gynnes â blew fydd wedi dynru o'i gwisg ei hun. Cyn mynd allan i chwilio am fwyd, gofala am gau yr ystafell y mae y rhai bach ynddi â phridd; ac nid oes neb ond hi'n gwybod lle y maent. Ac nid â yno ond yn y nos, rhag ofn i ryw elyn wybod lle y mae ei rhai bach yn llechu.

Llysiau yw bwyd y cwningod. Os bydd eithin o amgylch eu llochesau, bwytânt y rhai hynny; y mae y blagur ieuanc yn fwyd wrth eu bodd. Ond weithiau, er iddynt sefyll ar eu traed ôl, y mae llawer o'r blagur hwn yn rhy uchel iddynt fedru ei gyrraedd.

3. Fel pawb ohonom, ni chaiff y cwningod bob amser ddewis lle eu cartref na natur eu bwyd. Os bydd raid iddynt fyw ar ddaear wleib, ni fyddant yn tyllu i honno; eithr gwnânt ryw fynedfeydd hirion trwy'r grug, neu'r eithin, neu'r glaswellt bras fydd yn tyfu yno. Ambell dro, gwnânt eu cartref mewn hen geubren; ac felly byddant yn byw mewn tŷ pren.

4. Yn y nos y deuant allan i fwyta, ac i chwarae, a than olau'r lleuad y mae hawsaf eu gweld. Difyr iawn yw gweld eu pranciau hapus. Mae'n rhaid y bydd y rhai ieuainc wrth eu bodd yn cael chwarae allan, yn lle gorfod mynd i'w gwelyau yn yr ystafell fechan, dywyll, honno tan y ddaear. Ond y maent mewn perygl beunydd; y mae adar nos, fel y dylluan, yn chwilio am danynt yn ysglyfaeth.

Pethau bach tlyision ydynt, o liw llwyd golau, a'u blew yn esmwyth iawn. Ac y maent yn hollol ddiniwed. Ni frathant.

5. Y mae ganddynt glustiau mawrion, er eu bod yn llai na chlustiau'r ysgyfarnog, a chlywant yn dda. Y mae ganddynt lygaid mawr, hefyd, a gwelant yn eithaf wedi nos. A da fod ganddynt glust a llygad, oherwydd y mae llawer yn ceisio eu bywyd. Pan wêl un ohonynt berygl, dechreua redeg tua'r tyllau. Rhed y lleill ar ei hôl, a buan iawn y byddant wedi diflannu tan y ddaear.


6. Wrth redeg, codant eu cynffonnau i fyny; a chan fod y gynffon yn wen dani, y maent fel pe'n codi bāneri gwynion i fyny. Y mae golwg ddigrif

iawn ar y llu cynffonnau gwynion pan fydd ugeiniau a channoedd o wningod yn rhedeg am eu bywyd yn un dyrfa gymysg brysur. Y mae gweld y gynffon wen yn ei wneud yn beth hawdd i filgi eu dilyn neu i ddyn eu saethu. Pam y mae Natur yn eu dysgu i wneud peth a ymddengys mor ffôl a pherygl. Y farn gyffredin yw eu bod yn codi'r gynffon wen er mwyn i'w cyfeillion, ac yn enwedig eu rhai bach, weld ffordd y rhedant i ddiogelwch.

7. Nid ydynt yn darparu bwyd at y gaeaf, fel y gwiwerod. Ond medrant ymdaro yn eithaf; cânt ryw lysiau i'w bwyta trwy'r gaeaf. Ond weithiau, os bydd eira mawr ar y ddaear am hir, bydd yn galed iawn arnynt; a'r adeg honno enoant risgl coed ffrwythau, a bydd y coed farw i gyd os dirisglir eu bonau.

Ni fedr cwningod fyw ond lle y mae bwyd glas trwy'r flwyddyn. Felly, ni cheir hwy yng ngogledd a dwyrain Ewrob; buan y buasai'r gaeaf a newyn a'r blaidd yn eu difa yno. Ond cawsant gartref newydd yn Awstralia. Aeth ymfudwyr a hwy yno. Amlhânt yn fuan iawn, bydd lluo o rai bach yn eu mysg bob amser, ac y maent bron yn bla yn Awstralia. Difânt y coed a'r llyisiau yn y tymhorau sychion, ac y mae bron yn amhosibl eu difa hwy.

Ond, yn y wlad hon, gwnânt lawer iawn o dda; ac ni wnânt ddrwg i goed ond ar ambell aeaf eithriadol o galed. Pethau bach tlyision, difyr, diniwed, ydynt; hawdd eu dofi; cyfeillion i ni.



YR EOG

YR EOG

1. **Y** MAE rhywbeth yn brydferth, os nad yn fawreddog, yn ymdaith y pysgodyn hardd a glân hwn drwy ddyfroedd afonydd a moroedd. Y mac ei ben a'i gefn yn lasddu ddisglair, ei ochrau ac odditanodd yn ariannaidd wyn. Yma ac aew y mae ysmotiau duon megis yn ychwanegu at ei dlysni.

2. Yn y gwanwyn a'r haf, pan fydd dwfr ein haberoedd yn lân, daw'r eog o'r môr i'n hafonydd, ac ymdeithia'n ddiorffwys, drwy ryw reddf ryfedd, nes cyrraedd graean glân, mewn rhyw nant fynyddig. Môr y Gogledd yw ei hoff gartref, ni cheir ef yn y Môr Canoldir. Daw i fyny Rhein, ceir ef yn afonydd Rwsia, Sweden, Norway, Ynys yr Ia, a Greenland. A daw i'n hafonydd ninnau. Hoff gan lawer bysgota amdano yn Nyfrdwy a Lledr a Dyfi, yn Nhywi a Hafren a Gŵy. Ceir ef yn afonydd yr Amerig hefyd, a gofelir yn llawer gwell yno am y pysgodyn gwerthfawr,—brenin y pysgod ar lawer cyfrif, hoff ddanteithfwyd byd.

3. Daw i'n haberoedd trwy lawer o anawsterau. Rhaid iddo lamu tros greigiau, er mwyn esgyn o lyn i lyn. A welsoch chwi eog yn llamu? Ymffurfia ei hun yn gyleh, ymdeifl ei hun i fyny, gan fflachio fel arian ac aur yn yr haul. Yn aml


neidiant i fyny wyth troedfedd neu ddeg ; a gall rhai neidie o ddeuddeg troedfedd i bedair ar ddeg yn syth ar i fyny. Y mae gelynion iddynt ar y ffordd. Er dod i fyny Dyfrdwy, ychydig a fedr fynd trwy Lyn Tegid i'w haberoedd uchaf ; y mae y penhwyad ysglyfaethgar yno, ac yn gwylio pob eog.

Wedi cyrraedd graean glân, lle tery'r haul cynnes ar y dwfr, ymgladda'r eog yng ngwely'r afon, ac yno dodwyr yr wyau. Yna â'r eog,—y gwryw'n goch a'r fenyw'n ddu erbyn hyn,—yn ôl i fwynhau dŵr yr afonydd.

4. Pan ddaw'r eogiaid bach o'r wyau, ni fydd yno neb i roi bwyd na chyngor iddynt. Pethau bach â phennau a llygaid mawr ydynt, yn newid eu gwisg o hyd,—llwydwyn rhesog i ddechrau, yna llwytgoch, yna glaswyn. Eu bwyd yw'r pryfed a geir yn yr afon. Toc, daw rhyw ysfa atynt am fynd i lawr i'r môr. Yn bethau bychain dwyflwydd oed, cychwynnant, ddeugain neu hanner cant gyda'i gilydd. Y maent yn ofnus iawn. Cadwant gyda'r lan cyhyd ag y gallant, ac yn y dŵr llonydd. Pan glywant sŵn rhacadr, daw dychryn trostynt. Troant eu pennau'n ôl, i gyfeiriad eu hen gartref. Ymhen hir a hwyr, gedy'r dewraf ohonynt i'r dŵr eu cludo i ben y dibyn, a throsodd ag ef. Yna daw'r cwbl ar ei ôl, ar draws ei gilydd, a chânt orffwys ar ôl eu braw yn y llyn tawel islaw. Wedi cyrraedd y môr, tyfant yn gyflym. Ac yn eu hamser, yn bysgod brafiach a dewrach, deuant hwythau'n ôl.

Y maent o bob maint, rhai yn pwyso cymaint a thrigain pwys, neu hyd yn oed bedwar ugain. Delir hwy â genwair bryf neu bluen, â thryferi, ac â rhwydau.

Gellid gwneud llawer mwy i ddiogelu yr wyau a'r pysgod, a sicrhau digonedd o bysg maethlawn a blasus, nag a wneir gennym ni.



Y DYRNOGYN

Y DYRNOGYN

1. **D**YWEDAIS na fedr yr eog fynd trwy lyn Tegid oherwydd perygl ei ysglyfio gan y penhwyad cyflym, newynog, nad yw, meddir, byth yn cysgu. Ond y mae yn y llyn hwnnw heidiau mawrion o ddyrnogiaid ; ac er nad ydynt mor flasus a'r eogiaid, eto y maent yn fwyd a dyr newyn dyn a phenhwyad. Paham y medrant hwy fyw yn yr un dŵr â'r penhwyad ?

Edrychwch ar esgyll y dyrnogyn, yn enwedig ar yr aegell sy'n codi'n wrychyn oddiar ei gefn. Beth a feddylia'r penhwyad wrth edrych arno, tybed ? "Bwyd da," eb ef, "ori bai am y pigau acw ; cwyd y rhai acw rywbeth gwaeth na diffyg treuliad."

2. Y mae golwg brydferth ar y dyrnogyn yn y dŵr, er na fedd dynerwch lliwiau'r eog nac ysblander lliwiau'r penhwygyn. Llwydwyrd d yw ei gefn, ei ochrau'n euraidd, a'i fol yn wyn. Pysgodyn cymharol fychan yw, eto cafwyd rhai'n pwysu naw pwys ac yn ddeng modfedd ar hugain o hyd.

3. Ceir y dyrnogyn yn holl ddyfroedd croyw Ewrob a Siberia, a cheir un math yng Nghanada. Ond nid yw'n bysgodyn môr. Ar bryfed a thrychfilod a physgod bychain y mae'n byw. Nid yw ei gig yn debyg o ran gwerth i gig eog y môr a brithyll yr afonydd.


Y mae'n bysgodyn ffrwythlon iawn. Gedy ei wyau yn rhes hir ; a dywedir bod un dyrnogyn yn dodwy, mewn un gwanwyn, gynifer a dau gant a hanner o filoedd,—chwarter miliwn,—o wyau. Ond ni ddeorir y rhain i gyd. Ac y mae'n sier fod lluoedd afrifed o'r pysgod bach yn marw o eisiau bwyd, neu yn cael eu hysgleifio gan bysgod eraill cyn i w hesgyll ddod yn ddigon cryfion i'w hamddiffyn.

LOCUSTIAID

1. **Y**CHYDIG a wyddom ni am y locustiaid difaol. Ond y maent yn ddychryn i rai gwledydd. Deuant yn llw mawr na all neb eu rhifo, yn gwmwl du rhyngoch a'r haul, disgynnant ar wlad werdd, a gadawant hi yn wlad lom, farw, heb ddeilen na glaswelltyn yn aros ynddi.

Ceir llawer o'u hanes yn y Beibl. Hwyl oedd i gosbi am wrthod gwranddo ar Dduw : " Had llawer a ddygi allan i'r maes, ac ychydig a gesgli ; oherwydd y locust a'i hysa." Yr oedd dihareb yn dweud am danynt : " Y locustiaid nid oes brenin iddynt, eto hwyl a ânt allan yn dorfeydd." Gwêl Ioel elynion yr amaethwr yn dod yn rhes, a'r gwaethaf yn olaf, i ddifa popeth a adawyd,—y ceiliog rhedyn, pryf y rhwd, a'r locust. Y mae darluniad tarawiadol iawn ohonynt yn dod o'r tywyllwch yn llyfr Datguddiad :

" A dull y locustiaid oedd debyg i feirch wedi eu paratoi i ryfel ; ac yr oedd ar eu pennau megis coronau yn debyg i aur, a'u hwynebaw fel wynebaw dynion. A gwallt oedd ganddynt fel gwallt gwragedd, a'u dannedd oedd fel dannedd llewod. Ac yr oedd ganddynt lurigaw fel llurigaw haearn, a llais eu hadenydd oedd fel llais cerbydau llawer o feirch yn rhedeg i ryfel."




Y LOCUST

2. Ie, rhyfedd ydynt ; y mae eu corff, er mor aneirif ydynt, wedi ei wneud yn berffaith at eu gwaith. Y maent fel tywysogion Ninefe, fel meirch yn carlamu i ryfel. Y mae eu chwe phâr o goesau, pedwar at gerdded a dau at neidio ; eu dau bâr o adenydd, yr allanol o wyrdd, a'r mewdol o felyn a glas ; eu llygaid aml ; eu dannedd cryfion ; eu clyw buan,—oll yn hawlio sylw. Y mae cefnder diniwed iddynt, bron yr un ffurf a hwy, yn byw yn ein gwlad ni. sef ceiliog y rhedyn ; cewch glywed ei sŵn yn rhwbio ei goes ôl yn erbyn ymyl ei aden yn y gwair, er mwyn gwneud miwsig i'w gymhares.

Dodwya'r locust o ddau cant i dri chant o wyau yn y flwyddyn, a rhydd hwy yn y ddaear. Daw pryfed bach newynog allan cyn hir ac ysant bopeth o'u blaenau. Yna magant adenydd, a deuant yn ddychryn i'r gwledydd. Difânt bopeth o'u blaen, a bydd newyn ar bawb lle y buont. Dros ganrif yn ôl, disgynnodd cynifer ohonynt i'r môr fel y taffwyd ar y lan fanc dros dair troedfedd o uchter o'u cyrff meirw, a thua hanner cant o filltiroedd o hyd. Dywedir bod y drewdod afiach yn mynd gyda'r gwynt gant a hanner o filltiroedd i ffwrdd.

Nid oes modd i'w difa unwaith y cânt adenydd ; difa'r wyau yw'r unig ffordd.



PRYFED TÂN

PRYFED TÂN

1. **Y**R wyf yn cofio haf gwlyb anghyffredin. Nid oedd dichon cael y gwair yn sych. Yr oedd hanner cyntaf Awst wedi mynd, a ninnau heb gael dim gwair i ddiddosrwydd. Ryw fin nos mwyglaidd peidiodd y glaw â disgyn, a chododd awel hyfryd o'r gogledd. Pan oedd wedi nosi, daeth y gair fod y gwair yn ddigon sych i'w drin. Ffwrdd â ni i'r weirglodd, a'n cribiniau yn ein dwylo. Wrth i mi droi'r gwair â'm cribin, beth feddyliech oedd fy syndod pan welwn y ddaear megis ar dân, gan cleuni gloyw, tan y gwair. Ofnwn, ar yr olwg gyntaf, losgi dannedd fy nghribin. Miloedd o bryfed tân oedd yno, yn chwilio am ryw fwyd yn y gwair wrth eu golau eu hunain.

2. Tua diwedd yr un mis, yr oeddwn yn mynd i fyny un o ffyrdd y cwm yn fyfyrger, wedi nos, a'm pen i lawr. Cyn dod at drofa, codais fy mhen yn sydyn, a gwelais beth a wnaeth i mi gilio'n ôl mewn dychryn. Yr oedd pen aruthrol yn llenwi'r ffordd. Yr oedd ganddo drwyn bachog anferth. O bob ochr i'r trwyn yr oedd llygad yn fflamio tân. Fy meddwl cyntaf oedd troi fy nghefn, a dianc am fy mywyd; oherwydd clywn fy ngwallt yn codi ar fy mhen. Ond yr oedd arnaf awydd gwybod beth oedd. Sylwais nad oedd yn symud dim.

Cerddais ato, yn araf, araf. O'r diwedd, gwelais nad oedd o'm blaen ond carreg ddu fawr yn taflu allan o'r gwrych yn y drofa, a dau ysmotyn o bryfed tân ar lethr y clawdd uwch ei phen. Bum yn edmygu'r ddau deulu,—teulu'r Lampyris,— a rhoddais nifer ohonynt ar gantal fy het. Arosasant yno'n ddididig, ac wedi mynd adre, rhoddais hwy o'r neilltu, gan feddwl eu chwilio'n fanwl drannoeth. Erbyn y bore, nid oedd yno yr un ohonynt.

3. Dywedir bod dwy lain deneu o sylwedd caled gwyn dan y pryfed; y mae'r llain yn ddwbl, yr ochr allan yn felynaidd dryloyw; a'r ochr i mewn yn wen, na ellir gweled trwyddi. Medr y pryf anadlu i'r lleiniau hyn, a rhywsut, ni wyddys yn siwr sut, medr oleuo lamp i ddangos iddo ei lwybr a'i gymdeithion.

Dywed llyfrau fod llawer o bryfed tân. Y mae un pryf wrth ei filiynau ar wyneb y môr, na welir yn eglur ond trwy chwyddwydr. Weithiau, gwna i filltiroedd o fôr edrych fel pe byddai ar dân. Y mae un pryf y gellir darllen print mân yng ngolau ei bedair llusern. Hwyrach bod rhai ohonoch wedi gweld Jac y Lantar. Rhyw bryfed tân yw'r hen ffrind hwnnw.


Golau tyner prydferth ydyw'r golau. Y mae gwŷr dysgedig wedi rhoi llawer o amser i astudio'r golau mewn pryfed ac mewn mater fel phosphorus. Erbyn hyn medrant rod-di paent ar wyneb oriawr a'i gwna'n dryloyw yn y nos.

LLIW YN AMDDIFFYN

1. **Y** MAE'N ddyletswydd ar bob creadur amddiffyn ei fywyd. Dyna'i reddf ddyfnaf. Y mae gan bob un ryw fodd i'w amddiffyn ei hun,—y mae gan y llew ei balf, yr arth ei chrafanc, y march ei garn, y baedd ei ysgythrddant; ac fel y dywedai yr hybarch Michael D. Jones, gan ddal ei ddwrn o flaen cynulleidfa: “Ac y mae gan ddyn, yntau, ei forthwyl.” Y mae gan ambell greadur diniwed ei amddiffynfa,—y draenog ei wisg, y crwban ei gragen.

2. Ond hwyrach mai'r prif amddiffyn yw lliw. Edrychwch ar y darlun aew. Ond craffu, chwi welwch ddau wyfyn, un ar bob cangen uwchlaw'r fforch. Eu hunig amddiffyn rhag llygaid llym adar ysglyfaethus yw tebygrwydd eu cyrff i'r goeden y maent yn gorffwys arni. Pe gwelech hwy yno, yn eu lliwiau priodol, ar ddamwain yn unig y canfyddech hwy.

A fuoch chwi'n gofyn erioed: pam y mae y gloyn byw hwn yn felyn, a hwnacw'n las, a'r llall yn gochddu ac un arall yn wyn? Y mae eu tlysnï'n amddiffyn iddynt, gan ei fod yn debyg i dlysnï'r blodau yr hoffant ddisgyn arnynt. A fuoch chwi erioed yn teimlo ysbrigyn o bren crin yn troi'n fyw wrth i chwi gyffwrdd ag ef? Gwyfyn oedd,




Y GWYFYN LLWYDFELYN

ar lun ysbrigyn. Y mae ieir mynydd bychain yr un lliw yn union â gwellt y mynydd. Y mae un gloyn byw yn union fel blodau'r grug.

Y mae pob peth sy'n byw yn yr anialwch,—camel, ehedydd, neu sarffi,—o'r un lliw a'r tywod. Y mae adar y Pegwn, gwlad yr eira, yn wynion.

Y mae lliw yn gymorth i'r bwystfil ysglyfaethus hefyd, fel na welir ef yn dyfod. Y mae brychni'r llewpard, a rhesi ysblennydd y teigr, yn eu gwneud yn debyg i dyfiant coedwigoedd yr India. Y mae melyn hardd y llew yn ei wneud bron yn anweledig yn erbyn y wlad felynwerdd y llama ar hyd-ddi.



NADROEDD

NADROEDD

1. **E**R perycled yw nadroedd mewn gwledydd eraill, ac er mor farwol yw eu brathiad, nid oes le i ofni yn ein gwlad ni.

Nid oes yng Nghymru ond dwy neidr, sef y Neidr Ddu a'r Neidr Fraith. Y mae'n hawdd adnabod y naill oddiwrth y llall. Y mae llinell ddu ogam yn rhedeg hyd gefn y Neidr Ddu o'i phen i flaen ei chynffon; llwytaidd yw'r Neidr Fraith, gydag ychydig ysbotiau duon. Y mae pen y Neidr Ddu'n llydan, a phen y Neidr Fraith yn weddol hir. Mae'r naill yn wenwynig, ond nid y llall.

2. Ond peidied neb â dychrynu. Ni frath y Neidr Ddu neb ond pan ymosodir arni, neu pan roddir troed arni. Creadur bach ofrus iawn ydyw. Dianga o'r golwg rhag eich cysgod bron. Nid oes arni eisiau ond lle i ymheulo a lle i gysgodi.

A phe brathai, nid yw ei brathiad byth yn farwol. Os brethir chwi, sugnwch y briw mor egr ag y medrwch, a thafwch y poer allan. Neu, oni fedrwch gyrraedd y briw, gofynnwch i rywun arall wneud hynny. Yna cerddwch yn hamddenol i siop cyffryiwr neu adref, a rhowch dipyn o *sal volatile* neu amonia ar y briw. Ni fyddwch ddim gwaeth nag ar ôl brath gwenynen.

Gelwir creadur bach diniwed arall yn neidr, sef y Neidr Ddafad. Y mae hon yn medru cau ac agor ei llygaid, ond y mae llygaid neidr bob amser megis yn agored.

3. Ym mis Awst diweddaf, gwelwyd neidr yn gwrando ar ganu, ac yn ei fwynhau. Yn ystod angladd yn Lleyn y bu hyn. Yr oedd y person yn sefyll wrth y bedd a'r galarwyr yn canu emyn lleddf. A gwelid neidr, wedi dod o rywle, yn codi ei phen cyn uchod ag y medrai, ac yn ymysgwyd yn ôl a blæen gyda'r canu. Tra darllenid y bennod gladdu, aeth y neidr o'r golwg. Ond pan gododd nodau prudd "Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau," daeth y neidr i'w lle wedyn, a siglai ei chorff yn ôl ac ymlaen gyda'r sŵn.

TEULU'R GENEU GOEG

1. **Y** MAE'N debyg nad oes yr un teulu yn cael cymaint o gam â theulu diniwed y fadfall neu'r geneu goeg. Nid oes ond tri o'r teulu mawr hwn yn y wlad hon, sef y geneu goeg, madfall y tywod, a'r neidr ddafad.

Ar greigiau heulog y ceir y geneu goeg. Y mae'n hollol ddiniwed. Pan wêl chwi, yswatia i lawr ar y graig, ac y mae'n debyg iddi o ran lliw fel y mae'n anodd iawn ei gweld. Os tybia eich bod wedi ei gweld, ceisia ddianc yn afrosgo i ryw dwll. Os deliweh hi gerfydd ei chynffon, hwyrach y tyr y gynffon yn eich llaw, a dihang a hithau tra foch chwi yn llawn syndod. Tŷf cynffon newydd yn lle yr hen. Er mor ofnus yw, y mae'n bosibl ei dofi.

Yn y tywod heulog cynnes yr hoffa madfall y tywod fod. O wyau y daw ei rhai bychain hi.

2. Geneu goeg heb draed yw'r neidr ddafad. Y mae'n debyg iawn i neidr, a dyna achos ei thrallodion. Erlidir, lleddir hi'n ddirugaredd, lle bynnag y ceir hi. Ac eto y mae'r fwyaf diniwed o holl greaduriaid Duw. Ond pwy a gred hyn wrth weld ei chorff gwyrdd yn ymrwyfo drwy'r glaswellt? "Neidr yw, lladder hi," ebe pawb. Y peth a ddylent ei wneud yw ei dal, a'i chroesawu i'r ardd, oherwydd ei bwyd yw'r malwod sy'n bwyta dail ieuainc eich hoff blanhigion.




GENEU GOEG

Geilw rhai o blant y Saeson hi'n bryf dall. Ond y mae ganddi lygaid bychain disglair, a medr eu cau ; a phan welir hi'n farw, yng nghaead y byddant. Ond ni all neidr gau ei llygaid. Y mae rhyw orchudd corn caled trostynt i'w hamddiffyn ; a dyna pam y mae eu trem mor oer, nes gyrru i'rsau drwoch.

3. Myn anwybodaeth gredu mai sarff yw'r neidr ddafad. Ac wrth feddwl am sarff, meddyliant am y *boa conscriptor* a fedr falu esgyrn bustach, neu am y *puff adder* y bydd ei cholyn yn farwol bob amser. Meddyliant hefyd am y sarff ardderchog y cymerodd Satan ei llun wrth ddod a phechod i'r byd hwn.

Meddyliwch am angel mawr, ardderchog, anwybodus. Wrth gwrs, nid oes yr un. Ond meddyliwch am un felly yn dod i'r byd yma, ac yn lladd plant bach tlysiion oherwydd iddo glywed am ryw gewri creulon gynt, y rhai y byddai y Jac bach dewr hwnnw yn eu lladd. Oni fyddai hynny'n gam ? Ond dyna a wnawn ni â theulu'r geneu goeg.



UN HYLL

UN H Y L L

1. **Y** MAE'N debyg bod peth ymryson rhwng y crocodeil â'r aligetor am fod y creadur hyllaf sydd yn bod. Y mae trwyn y crocodeil yn hir, a thrwyn yr aligetor yn fyr; a rhai hyll iawn yw'r ddau.

Y mae amlenni o gragen am y crocodeil; ni wna saeth oddiar fwa ond neidio'n ôl oddiarno, ac ni wna llawer bwled ond flatio fel botwm ar ei gragen. Y mae ei safn anferth yn agored, gwelir ynddi ddwy res hir o ddannedd llymion, ac y mae ei thu mewn yn goch fel gwaed. Mae rhyw edrychiad hanner llechwraidd, hanner mileinig, yn ei lygaid bychain creulon. Ac am ei gorff, llusgo'n afrosgo y mae.

Ceir y crocodeil ym mharthau poethion Affrig, ac yn yr India hefyd. Y mae crocodeil y Neil yn adnabyddus er bore'r byd, ac addolid ef gan yr hen Eifftiaid, y rhai a dybiai ei fod yn llun o'r duw oedd yn achos pob drwg. Y mae dros bymtheg troedfedd o hyd. Gwyrdd golau, gydag ambell lecyn melyn, yw lliw crocodeil yr Aifft; ond du yw crocodeil Senegal. Ceir hwy yn yr India, a Siam. Y maent yn berygl iawn pan yn newynog; ymosodant ar ddyn, a'r unig ffordd i ymachub rhagddynt yw gwthio bysedd i'w llygaid; pan wneir hynny, gollwng y safn hir ei hysglyfaeth ar unwaith.

2. Yn yr Amerig, yng nghorsydd Misisipi ac Amason y mae'r aligetor a'r caiman. Gorweddant ar fin afonydd, heb ddim ond eu pennau allan, a chydiant yn ddidrugaredd ym mheth bynnag a ddaw heibio iddynt,—pysgodyn yn nofio, plentyn yn chwarae neu'r jaguar creulon yn chwilio am ei ysglyfaeth.

Llusga'r teulu hwn eu hysglyfaeth dan y dŵr nes y boddo. Yna rhwygant ei gnawd yn ddarnau trwy dynnu darnau o hono â'u dannedd. Gallant hwy fod tan y dŵr, a chadw eu hysglyfaeth tan y dŵr, tra fo eu ffroenau hwy eu hunain yn yr awyr.

3. "Tlws pob peth bychan," ebe'r hen air. A yw y crocodeil bach yn dlws? O'i gymharu â'i dad a'i fam, y mae. Ond nid yw hynny 'n dweud llawer. Daw o'r wŷy,—wŷy ychydig mwy nag wŷy gwydd,—yn barod i ymladd trosto'i hun. O'i gymharu â'r hen grocodeil, y mae'n beth bychan iawn. Y mae ei lygaid yn fawr, y mae ei geg yn agor o hyd, a daw o'r wŷy â dwy res o ddannedd gwynion, llymion iawn. Deil bysgod yn bennaf; ond, bob yn dipyn, daw yntau'n ddigon cryf i dynnu dafad i lawr i'r dŵr, os daw honno i yfed o fin yr afon.

Y CRWBAN


1. **R**HAI o greaduriaid rhyfeddaf y byd yw'r crwbanod. Mae llaweroedd o fathau ohonynt, rhai yn byw ar y tir, eraill yn y llaid, eraill yn nwfr yr afonydd, ac eraill yn y môr. Y maent oll yn bedwartroediog, ac y mae eu gwaed hwy oll yn oer. Yn y gaeaf, y mae holl grwbanod y tir yn cysgu, hyd nes y daw haul y gwanwyn i'w deffro. Y peth hynotaf yw bod ganddynt wisg o gragen, a honno yn tyfu o'u hesgyrn a'u croen.

Mae rhai yn fychain iawn, a gwerthir eu cregyn, wedi eu llenwi â phlwm, yn bwysau papur i rwystro i'r gwynt symud y papurau oddiar eich bwrdd. Y mae eraill yn bum troedfedd a hanner o hyd, ac yn pwyso o dri i bedwar can pwys ; a gallech sefyll ar gefn eu cragen heb beri poen yn y byd iddynt.

Dodwyant wyau, a rhoddant hwy yn y llaid. Pan ddaw'r crwban bach o'r gragen, bydd ganddo wisg o gragen am ei gefn, a dwyfronneg o gragen odditano. Gall y rhan fwyaf ohonynt dynnu eu pennau a'u coesau i newn i'w cregyn ; a gall rhai gau eu cragenau am danynt.

Byddant byw yn hir iawn. Medrant fyw heb fwyd am fisoedd, os nad am flynyddoedd.

2. Y mae llawer yn cadw crwban yn eu gerddi. Mae'n greadur hollol ddiniwed, ac nid oes ganddo ddant yn ei ben. O lannau'r Môr Canoldir y daw




CRWBAN Y TIR

y crwbanoed a welsoch chwi'n cael eu gwerthu : o Dwrci, neu Roeg, neu Asia Leiaf, neu Balesteina.

Os oes gennyeh un yn yr ardd, gwyddoch lawer amdano. Bychan yw ei ben, heb lun o drwyn, ac heb glustiau i'w gweld. Ac mor ddifrif yw ei lygaid llonydd ! Nid oes ganddo sawdl, a cherdda'n atrosgo ; ond nid yw ei symudiadau'n hyll. Mae ei gragen yn banelau, ac yn aml yn brydferth iawn. Gwneir cribau ac addurniadau ohoni, ac y mae cragen crwbân yn adnabyddus iawn i ferched fydd yn mynd i siopau.

Daw'n ddof iawn yr yr ardd, a daw i'ch adnabod yn fuan, yn enwedig os rhowch ddail wrth ei fodd yn fwyd iddo. Ond, yn bur aml, cilia rhag plant. Y mae arno ofn iddynt ei roi ar wastad ei gefn, i weld ei ymdrechion digrif i godi ar ei draed drachefn.

Y mae wrth ei fodd yn yr ardd. Crwydra wrth ei ewyllys ddydd a nos, ac ni wyddoch yn y byd pa le y deuwch ar ei draws. Ond, fel rheol, rhyw gornel sych, gysgodol, sydd wrth ei fodd. Hwyrach na welwch ef eleni eto. Y mae'n ddigon tebyg ei fod wedi mynd i ryw dwll, ac yno'n cysgu'n drwm ddydd a nos. Ond pan ddaw haul cynnes y gwanwyn i dywynnu ar y llaid neu'r dail sydd uwch ei ben, dadebra eto. A chewch ei weld, a'i goesau afrosgo a'i lygaid llonydd, yn synnu lle mae'r tatw a'r bresych a'r amryw lysiau gwyrddion oedd yn yr ardd pan aeth ef i gysgu yn yr hydref.



CRIBAN Y MÓR

CRWBAN Y MÔR

1. **N**ID yw crwban y môr cyn hardded â chrwban y tir. Nid yw ei gragen cyn hardded, plaen a diaddurn yw ei gragen ef. Y mae ei draed yn fwy afrosgo hefyd, oherwydd y maent wedi eu gwneud at nofio ; er nad ydynt yn hardd, y mae'n dda i'r crwban eu cael. Y mae ei ben yn fwy, ac yn anolygus. Medr dynnu ei wddf i'w gragen, ond ni all dynnu ei ben i mewn, na'i goesau asgellog.


Ond mae gunddo ddwy ffordd i'w amddiffyn ei hun. Yn un peth, medr frathu ; ac wedi cydio, ni ollwng ei afael. Peth arall, er mor afrosgo yr edrych, medr symud yn chwim iawn ar dir a dŵr, yn enwedig yn y môr.

2. Yn y môr, ac ar lannau afonydd mawr, y mae ef yn byw. Gwna lawer o les yn y dyfroedd trwy fwyta wyau'r crocodeil ac anghenfilod tebyg, ac felly gwna gymwynas fawr i'r byd.

Ceir ef ar lannau moroedd a llynnoedd ac afonydd gwledydd poethion, yn Asia ac Affrig ac America. Bwyteir ef, a dywedir bod ei gig yn dda iawn.



ADAR



DYCHWELIAD YR ADAR

1. **M**IS dychweliad yr adar a'r blodau yw mis Ebrill. Daw llawer aderyn hoff i'n gwlad yn ôl, wedi bod yn bwrw'r gaeaf ar grwydr mewn gwledydd pell.

“A glywsoch chwi'r gog?” Dyna gwestiwn plant tua dechrau mis Ebrill. A dyna ddywed y gog:

Mi gana'n ddilai trwy Ebrill a Mai,
A hanner Mehefin, gwybyddwch bob rhai.

Tybiem ni, pan yn blant, yr âi yn ôl o'n gwlad cyn gynted ag y gwelai wair wedi ei dorri. Er hyfryted y cynhaeaf gwair, yr oeddym yn teimlo, wrth weld hogi'r pladuriau, fod y gog ar gychwyn. Mer glir a pheraidd oedd deunod y gwew! Yr oedd wedi crygu'n sicr, ac fel atal dweud arni,—“gwe-gwe-gwe-cw,”—cyn diwedd ei thymor; ond ni hoffem ei cholli. Llawer buom yn craffu wrth chwilio am y deryn llwydlas. A llawer y chwiliasom am ei nyth, cyn gwybod nad yw'r gwew'n gwneud nyth, ond ei bod yn dodwy wyau, a chogau bach drwg ynddynt, yn nythod adar eraill.

2. A dyma'r wennol yn mynd heibio fel fflach. O, yr oedd ei chroeso'n fawr. Tybiem mai hi oedd yn dod â'r haf cynnes gyda hi. Ac yr oedd ei thrydar yn fwsig inni. Teimlem fod yr hen feudy

wedi peidio â bod yn wag pan ddaeth y gwenoliaid i wibio trwyddo, gan gofio mai ynddo yr oedd yr hen nyth.

3. Daw'r telynoriaid hwythau hefyd, yr adar bach swil, ac ofnus, prydferth eu gwisg a melys eu cân. Daw Telor yr Hesp i ganu ac i wneud ei nyth yn y corsydd; a'r Gwich-hedydd swil i'r dyrsni.

Daw'r pib-ganyddion hefyd, i wneud eu nythod ar y ddaear. Gwelir Pibganydd y Coed mewn porfeydd yn ymyl llwyni coed. A gwelir Swit y Waen ar ddoldiroedd. Gwêl y gog ei nyth hi, ac yn aml dodwa ei hwyau ynddo.

Clywch gân gras y Gwddw Gwyn hefyd. Ac yn nyfnder nos, os digwyddwch ddeffro, clywch nodau aflafar Rhegen yr Yd.

Nid enwais ond ychydig. Y mae llu eraill yn dod ym misoedd y gwanwyn. Y mae eu taith wedi bod yn hir ac yn berygl. Ond y mae rhyw reddf yn eu galw'n ôl i'r hen nyth.

YR YSGUTHAN

1. **Y**N Ebrill a Mai, pan fydd yr hin yn gynnes,
y daw'r Ysguthan i'n gwlad ni. Mwyn,
ar noson dawel, yw clywed ei nodyn
lleddf, tyner, Cww-w-w.

Colomen wyllt yw'r ysguthan, un o deulu o dros
bum cant.

Corff main, telaid, sydd iddi. Glas a llwyd,
gyda pheth gwyn a du, yw ei lliwiau esmwyth.
Y mae peth lliw coch ar ei bron, a chochion gwinau
yw ei thraed.


Bwyty lawer,—mes, ceirch, gwenith, pys.

Nyth aflêr iawn sydd ganddi, ar fforch derwen,
neu ar ben gwrych ger y meysydd llafur. Gwyn
yw'r wyau.

Y mae yr ysguthanod bach yn hynod ddi-
ymadferth; a mawr yw gofal y tad a'r fam
amdanynt.

Gwledydd tymherus Ewrob yw cartref yr
ysguthan. Nid yw'n hoff o dywydd caled, oer.
Eto erwydra yn yr haf mwyn i Sweden a Norway,
lle mae ffrwythau, a heulwen, ac yn enwedig
pinwydd.

2. Y maent yn hoff o goed tawel cysgodol. Yn
yr hydref byddant wrth eu bodd mewn derw a
ffawydd. Yn y gaeaf ceir hwy ar gangau uchaf y
coed talaf, yn enwedig yr ynn, ymhell o gyrraedd
cath, wenci, a llwynog.



YR WYLAN BENDDU

YR WYLAN BENDDU

1. **Y** MAE'N debyg bod pawb wedi gweld yr Wylan Benddu ryw dro neu'i gilydd. Gwelir hi yn y meysydd yn y gwanwyn, yn dilyn yr aradr, ac yn cael ei phrydiau bwyd yn y tir a godir gan swch yr aradr. Gwelir hi yn y trefi mawrion, os bydd afon fawr yn mynd trwyddynt, yn eithaf dof. Yn Llundain, o amgylch toau uchel St. Paul's, ac ar lannau afon Tafwys, ceir hwy wrth y cannoedd, yn daer am y tamaid a rydd fforddoliau iddynt.

2. Ond ger glannau'r moroedd yn yr haf y ceir hwy yn eu hafiaith hapus. Cain iawn yw eu symudiad ar y don,—“Ysgafn ar don eigion wyd.” A thlws iawn yw'r Wylan,—y pen llwyd, y cefn glas-olau, y gynffon wen,—“unlliw a'r araf wenlloer.”

Difyr yw chwilio am ei nyth ar y twmpathau, gyda'r tri wy glân, gwyrddlas, a'r ysmotiau duon. Beth sydd mor hyfryd â glan y môr?



ERYR Y MÔR

1. **D**YWEDAIS wrthyh yn y bennod ddiweddaf hanes un o adar tirionaf y môr, y tro hwn wele i chwi ddarlun adar creulonaf y glannau. Ni welais i yr un erioed, ond dyma fel y darlunia y naturiaethwr enwog Audubon ef: "Gellir gweld y gorthrymwr di-drugaredd hwn yn sefyll ar frig uchaf coeden, a gwylia ei lygad disglair, creulon, bopeth sy'n digwydd odditano. Gwrendy ar bob sŵn, ni fedr ewig symud heb iddo ei gweld. Mae ei gymar ar goeden yr ochr arall i'r afon, ac os bydd popeth yn ddistaw, geilw arno, fel pe'n ei annog i fod yn amyneddgar. Wrth ei chlywed, egyr yr eryr ei adenydd llydain, a gwna sŵn fel chwerthiniad un lloerig; yna saif yn berffaith lonydd fel o'r blaen, ac y mae popeth yn ddistaw drachefn.

2. "Â llawer hwyaden i lawr gyda'r afon, ond ni wna'r eryrod un sylw ohonynt hwy; y mae eu bryd ar aderyn ardderchocach. A thoc, clywir gwaedd alarch ar ei aden, gwaedd debyg i sŵn utgorn, yn dyfod o bell. Daw ysgrech oddiwrth yr eryres, i alw sylw'r eryr at y peth sy'n dod. Ymysgydwa yntau, a rhydd ei blu'n daclus â'i big gam. Erbyn hyn y mae'r aderyn claerwyn yn y golwg, a'i wddf hir yn ymestyn ymhell o'i flaen. Pan fydd yr alarch yn ehedeg rhwng yr adar yr arswyda gymaint rbagddynt, ymsaetha'r eryr oddiar ei gangen gydag ysgrech ofnadwy, sy'n gyrru ias o ddychryn trwy'r alarch. Disgyn drwy'r awyr fel

seren yn syrthio, a chyrhaeddâ ei ysglyfaeth ofnus. sydd yn awr ym mhangfeydd anobaith, ac yn ceisio troi a throsi i geisio'i arbed ei hun rhag ei grafangau. Ceisia ddisgyn i lawr at y dŵr. Ond gŵyr yr eryr y medr yr alarch suddo os medr gyrraedd y dŵr, a dianc rhag ei ergyd. Ymsaetha i lawr odditano, ac wrth weld ei grafangau, cwyd yr aderyn dychryn-edig i'r awyr drachefn. Toc, y mae'r alarch yn blino, prin y medr anadlu gan ludded a braw. Yn awr tery'r eryr ef dan ei aden â'i grafanc haearnaid, a hyrddia ef i lawr ar osgo i lan yr afon. Yn awr, wedi iddo ddisgyn, gwasga ef i lawr â'i draed nerthol, a gyr ei ewinedd bachog drwy ei gnawd i'w galon. Wrth deimlo cryndod angau'n dod i gcrff ei ysglyfaeth, ysgrechia'r llofrudd mewn gorfoledd a llawenydd dros yr holl fro.

Bu ei gymar yn gwylio pob symudiad. Yn awr, ehed yn llawen i lawr i lan yr afon, i gydfwynhau y pryd gwaedlyd.

3. Aderyn rhaib yw'r eryr, ac un creulon. Ond, yn y nyth yn y graig, disgwyl ei rai bach am dano. Syllant i'r awyr las nes y gwelant eu tad neu eu mam yn dyfod o bell. A lle mae cariad y mae gwledd.

Nid oes ond ychydig wledydd heb eryrod. Ond y mae gwahanol fathau ohonynt,—eryr aur, eryr coch, eryr ymerodrol, ac eraill. Y maent oll, fel teulu, yn debyg i'w gilydd. Y mae iddynt gyrff cryfion, pennau llydain, trem falch a thrahaus, llygaid tanllyd, gwngus, adenydd hirion, crafangau fel haearn. Nid oes dim mor ddirugaredd â'u

rhuthr ar eu hysglyfaeth ; clywir ei esgyrn yn malurio yn eu hewinedd.

Mae nyth yr eryr mewn lle unig iawn bob amser. Aderyn unig yw. Rhaid iddo gael mynyddoedd iddo'i hun, a lle pell, anghyfanedd, yn gartref. Cilia o leoedd poblog ; anaml iawn y daw eryr i Gymru'n awr, hyd yn oed i Eryri.


Gwna ei nyth ymysg clogwyni, ar dalp o graig. Nyth mawr, llydan, a bas ydyw. Ym mis Mawrth y gwneir ef, yn sŵn y stormydd mawr olaf. Rhoddir canghennau mawr ar y graig i ddechrau. Ar y rhai hynny rhoddir canghennau llai. Yna yn uchaf rhoddir canghennau mân, a'r dail armynt. Bydd y dail hynny, wedi sychu, yn ddigon clyd a chynnes i wely eryr bach.

Chwi synnech, wrth gofio mai'r eryr yw brenin yr adar, ei fod yn dyfod o wŷy mor fach. Gwyn neu lwydwyrd d yw yr wyau, gydag ysbotiau a marciau tywyllach.

Ni fydd ond rhyw un, dau neu dri o wyau yn y nyth ; yn aml ni fydd ond un, heb fyth fwy na thri. Rhai newynog iawn yw'r eryrod bychain. Y mae eu rhieni yn hoff iawn ohonynt, fel y maent yn hoff o'i gilydd. Dônt a bwyd iddynt yn ei bryd. Ond bob tro y caiff yr eryrod bach fwyd, bydd ysgyfarngogod bychain heb fam, cywion rhyw aderyn arall heb neb i'w bwydo, neu ddafad heb oen. Ie, cyn hyn, aethpwyd â phlentyn bach i fyny i'r nyth.

Dywedir bod eryrod dof wedi byw i fynd dros gan mlwydd oed.

PIB-
GANYDD
Y GRAIG



PIBGANYDD Y GRAIG

1. **Y** MAE enw Pibganydd y Graig yn awgrymu dau beth amdano, sef ei fod yn ganwr, a bod ei gartref ymysg y creigiau.

Y mae'n ganwr bach eithaf mwyn. Tua diwedd Gorffennaf a dechrau Awst y clyw ar ei galon ganu. Cân yn fuan fuan, fel pe am ddod i'r diwedd ar unwaith. Nid oddiar ei graig y cân, ond cwyd i fyny i'r awyr a'i adenydd ar lawn led, erys ar ei aden fel pe'n nofio'n araf trwy'r awyr, ac yna disgyn yn hamddenol i'r llawr, fel pe wedi gwneud ei ddyletswydd wrth ganu.

2. Yn yr Alpau ceir ef yn aml iawn. Ond nid yw'n hoffi'r eira; oherwydd, weithiau, llithra'r eira ar ei nyth, a lletha ei rai bach. Felly cilia i lawr o flaen yr eira, daw i'r dyffrynnoedd, lle y caiff bryfed yn fwyd ar lannau'r afonydd. Yno caiff ei fwyd yn y corsydd, ac agen yn y graig i osod ei nyth ynddi.

Yn ein gwlad ni, ni cheir ef byth bron ond ar lan y môr, yn enwedig lle mae'r traeth yn greigiog, a lle ceir y llanw'n golchi dros y creigiau.

3. Aderyn gwyrdd-dywyll yw Pibganydd y Graig, gydag ysbotiau duon ar ei gefn a rhai gwynion ar ei fron. Mae llain wen dros ei lygad, ac y mae ymylon golau i'w adenydd.

Mae o' chwech i saith modfedd o hyd. Hyd ei aden yw tair modfedd a hanner, a hyd ei gynffon yw dwy fodfedd a thri chwarter.

Rhoddir y nyth lle na all dim ddisgyn ar yr wyau : mewn agen craig, mewn twll, neu dan gysgod coeden yn agos at ei bôn. Cartref digon brau yw cartref pibyddion bach y graig. Bydd o bedwar i saith o wyau yn y nyth, rhai gwyn a gwawr werdd, a chyda brychau o wyrdd tywyll.

Ar y tywed yn y gwymon y cânt eu bwyd. Cregynbysg bychain sydd wrth eu bodd. Pan ar lan y môr, eisteddweh am ennyd i edrych arnynt yn chwilio am eu bwyd : mor ddistaw, mor ddyfal, mor amyneddgar ydynt. A pheth da iawn, bwyânt y cregynbysg fydd yn difa rhwydi'r pysgotwr.

YR HWYAD EIDER

1. **M**I gredaf mai ar lannau'r afon Eider, rhwng Holstein a Schleswig, y gwelwyd yr hwyaden brydferth, werthfawr, a rhadden hon gyntaf. Ond anaml y daw mor bell i'r de a hynny. Moroedd y gogledd yw ei hoff gartref. Ceir hwyaid eider wrth y miloedd ar draethellau Norway, Spitzbergen, Siberia, a Gogledd Amerig. A hwy yw y prydferthaf o'r hwyaid. Gwyn a du ydynt, ond y mae peth gwyrdd ar eu pennau, a choch gwan ar eu bronau. Y mae eu plu yn dewion, yn wlanog, ac yn hynod esmwyth.

Adar y môr ydynt. Ant i fyny hafnau Norway gryn gan milltir i ddodwy a nythu, ond nid ânt fyth ymhell o gyrraedd dŵr hallt ac eangderoedd y môr. Gwnânt eu nythod ym Mai a Mehefin ar greigiau a llethrau rhyw ynysig. Heliant rywbeth a fedrant gael i wneud ochr allan y nyth, ond gwnânt y tu mewn o blu gwynion esmwyth eu bronau eu hunain. A phan godant oddiar eu nyth i chwilio am fwyd,—y mae digon o bysgregyn iddynt ar lan y môr,—rhônt fanblu ar yr wyau i'w cadw'n gynnes. Ymhen rhyw bum niwrnod ar hugain daw yr adar bach prydferthaf a welsoch erioed o'r wyau. Ant i'r môr cyn gynted ag y gallont. Ni allant gerdded dim llun, ac afrosgo iawn y cerdda eu tad a'u mam, syrthiant ar eu hochrau ac ar eu pennau beunydd. Ond gadewch iddynt fynd i'r môr, mor brydferth y nofiant!

YR
HWYAID
EIDER



A Thorburn.

2. Wedi i'r cywion adael eu nyth, daw pobl i gasglu'r plu y buont mor gynnes ynddynt. Ceir pwys o'r plu ysgeifn, cynnes, mewn rhyw ddeuddeng nyth. Gwn am blant bach sy'n cysgu'n gynnes a hapus dan gwiltiau *eider down*. Tybed y gwyddant fod yr un plu wedi bod yn cadw adar bach tlysiôn yn gynnes ym moroedd oerion y gogledd pell ?

Y mae plu yr hwyad eider mor werthfawr yn awr fel y cymerir gofal mawr gyda'r adar. Paratoir lle iddynt ar ynysoedd, a dônt yn eiddo i berchenogion yr ynysoedd, fel pe buasent wartheg neu ieir. Dônt yn ddoe iawn. Weithiau deuant i gaban y gwyliwr i wneud eu nyth. Ni ddiangant oddiar eu nyth er neb ; ond rhônt ryw bigiad chwareus i chwi os ewch yn rhy agos atynt. Ond gadawant i chwi eu codi oddiar eu nyth, ac edrych ar eu hwyau, a'u rhoi i lawr yn eu hôl. Nid yw'n rhyfedd fod plu mor esmwyth yn tyfu ar adar mor fwyn.



EHEDYDDION IEUAINC

Y R E H E D Y D D

1. **B**ETH, yn holl dlysnï'r haf, sydd mor swynol â chodiad yr ehedydd? A welwch chwi ef yn codi o'r cae yd, lle bu'n gorffwys tros nos, ac yn cychwyn ar ei daith ryfedd i'r nefoedd? A'r miwsig sy'n arllwys o'i big! A glywsoch chwi erioed ganu a chymaint o ynni angerddol ynddo?

Ceir ehedyddion trwy Ewrop i gyd, ac yn Asia, ac mewn rhannau o Affrig. Nid oes yr un aderyn yr hoffa yr Americanaid ei weld a'i glywed fel yr ehedydd, ac erbyn hyn y mae llawer o'r adar yn byw yn yr Amerig.

Y mae llawer math o ehedyddion,—yr ehedydd byrfys, yr ehedydd du, ehedydd y tywod, ehedydd y diffeithwch, ehedydd y waen, y corr hedydd, ehedydd y traeth, ehedydd y coed, enid, esgudogyll, ehedydd y maes.

Er bod mân wahaniaethau, y maent oll yn debyg i'w gilydd yn eu cryfder, yn eu gallu i ehedeg yn uchel, yn eu hymni bywiog, ac yn swyn gwefriol eu cân. Daw ehedydd y coed i Gymru weithiau, ond ehedydd y maes yw ein ehedydd ni. I Gymro, ef yw yr ehedydd.

Erys rhai ehedyddion yma trwy'r flwyddyn; daw eraill yn ôl o'r cyfandir yn yr hydref. Ond ni chrwydra'r ehedydd ymhell, fel y wennol a'r gog.

Mae ein ehedydd ni o ffurf fwy telaidd ac eiddil na'r lleill. Tua saith modfedd yw ei hyd. Mae ei gefn yn llwydfelyn, y fron yn felynwen, ac ymylon rhai o'r plu yn wynion. Mae'r gynffon yn fforchog.

Ar y ddaear yr erys y nos, ond yn yr awyr y mae'n byw. Cwyd ar doriad y wawr, ac i fyny ag ef ar ei union, tan ganu. Ei fwyd yw chwilod, gloywod byw, sioncod y gwair, a phryfed copyn; ond, wrth ddifa y rhai hyn, rhaid iddo gael ambell flaguryn o'r ŷd neu'r gwenith sy'n tyfu o'u cwmpas.

Ar lawr cae y gwneir y nyth. Nid yw ond twll yn y ddaear. Y gamp yw ei wneud yn debyg i'r cae o'i gwmpas, fel na wél llygad barcud ef. Prif elynion yr ehedydd yw nadroedd, hebogau, a phlant drwg. Glaswellt sych, dail gwyw, a rhawn, yw prif ddefnydd y nyth. Yn nechrau Mai y gwneir y nyth, a'r ŷd ieuanc glas yn codi o'r ddaear o'i amgylch. Bydd yno bump neu chwech o wyau melynwyrdd neu gochwynion. Yn fuan iawn wedi eu deor, ehed y rhai bach i'r ŷd, a bydd brodyr bach yn eu dilyn o'r nyth wedyn cyn diwedd yr haf.

A welsoch chwi'r ehedydd yn cerdded? A cherdded y mae, nid rhoi naid ac ysbone; a rhyfedd, rhyfedd, mor fuan y mae ei draed yn mynd.

Ond ar ei adain y mae orau. Cwyd i'r awyr, weithiau mewn cylchdro troellog, weithiau gan ymsaethu'n syth i fyny. Â'n llai, llai, ac o'r diwedd gwelir ef fel ysmotyn bychan du yn entrych yr awyr ddisglair. Cyn hir, cychwyn i lawr; a

chyn cyrraedd y ddaear wele ef yn cau ei adenydd, yn rhoi ei ben ymlaen, ac yn disgyn i'r ddaear megis plwm. Er i chwi golli golwg arno, y mae mor ddiogel yn y gwellt ag oedd ar fron y cwmwl.

A'i gân! Mor fyw ydyw,—y mae'n gyrru trydan drwoch. Cân wrth godi; ar ôl pob esgyniad arllwysa gân ar y ddaear fel cawod o lwch aur ac arian. Ac fel yr â i fyny, â'r gân yn felysach a thynnerach.

Wrth i chwi ei wrando, gofynnwch,—“Ai o lawnder ei galon y mae'n canu? Ynteu a ydyw yn fy ngweld i 'n gwranddo?”

Pe chwiliach yn fanwl, caech fod iddo edmygwyr heblaw chwi. Y mae ei blant, y rhai mwyaf a'r rhai lleiaf, yn edrych yn edmygol arno'n codi, ac yn hoffi ei gân. Dilynant ei siwrne, a thoc croesawant ef yn ôl.

Pa ryfedd fod y beirdd wedi canu clod yr chedydd?




ELEIRCH DUON

ELEIRCH DUON

I. **A**M gamrifoedd lawer yr oedd "alarch du" yn enw ar ryw beth nad oedd yn bod. Tynnai gwynder yr alarch, wrth nofio mor gain ac ysgafn ar y dŵr, sylw pawb, ac ni chredai neb fod y fath beth ag alarch du i'w gael. Hwyrach bod yr alarch yn wyn oherwydd mai yng ngwledydd yr eira y gwna ei nyth ac y maga ei gywion. Am yr alarch gwyllt, nid am y dof, yr wyf yn dweud. Ond pan ddarganfuwyd Awstralia, cafwyd ynddi beth rhyfeddach na'r cangarŵ a'r oposwm, sef alarch du. Mae'n debyg iawn i'w frawd gwyn sy'n byw am y ddaear ag ef.

Pam y mae gwddw yr alarch mor hir? Am mai llyisiau a gwreiddiau sy'n isel yn y dŵr yw ei fwyd.



Y CIWI.

Y CIWI

1. **U**N o'r adar digrifaf yw'r ciwi. Nid oes ganddo gynffon, nac adenydd gweladwy; ond y mae ganddo goesau hirion a phig hir iawn. O bell, ymddengys fel hen wraig fechan sionc, a'i chlog wedi ei thafllu trosti, gan guddio ei breichiau.

Brodor o New Zealand ydyw. Y mae pedwar math o hono ar ddwy brif ynys New Zealand, ond nid oes yr un ohonynt yn fwy na dwy droedfedd o daldra.

Y mae ei symudiadau'n ddistaw ac yn gyflym iawn. Medr gymryd camrau breision, a rhedeg yn hynod fuan, a'i gorff megis yn ei ddau ddwbl. Weithiau saif yn syth; ambell dro rhydd ei big ar y ddaear, a gorffwys ei gorff arni hi ac ar ei goesau; ond, fel rheol, saif yn ei hanner crwn, gan chwilio am fwyd â'i big hirfain.

2. Oherwydd ei big yw ei ffortiwn. Y mae'n hir ac yn gref, a thybir y gall aroglî â hi. Piga ffrwythau oddiar y coed. Ond ei brif fwyd yw pryfed, yn enwedig pryfed genwair. Plannâ'i big i'r ddaear, a gyr hi i mewn at y bôn. Cyn sicred â dim, daw â phryf genwair, neu ryw drychfilyn arall sydd yn amheuthun iddo, allan ynddi. Mae golwg ddoniol arno. Yn araf ac yn ofalus tyn y

pryfyn allan, gan ofalu peidio a'i niweidio na'i dorri. Mae fel pe'n sibrwd wrtho: "Tyrd, y peth bach, o'r ddaear ddu, dywyll, ac i oleuni cynnes yr haul, i'th fwynhau dy hun." A chyn gynted ag y caiff y pryf allan i gyd, teifi ef i'r awyr, deil ef yn ei big wrth iddo ddisgyn, a llwne ef heb na halen na phapur.

O liw, y mae rhai o'r ciwiaid yn llwyd, a rhai yn llwytgoch.

Dodwant ryw ddau ŵy, ac eistedd y gwryw a'r fenyw ar yr wyau bob yn ail nes eu deor.

Nid â'i big y bydd y ciwi yn ei amddiffyn ei hun, ond ag un o'i draed. Cwyd ei droed i fyny, a rhydd ergyd neu grafangiad ag ef.

GOFYNIION A GEIRFA

I

1. *Ennwch y gwahanol ffyrdd yr amddiffynna yr anifeiliaid, y gwyddoch chwi am danynt, eu hunain.*
2. *Ysgrifennwch y paragraff hwn yn eich geiriau eich hun.*
3. *Rhowch enwau yr anifeiliaid a ddiplannodd o'r byd, os gellwch. Pa fath anifeiliaid oeddynt?*

LLID, *anger.*

CARN, *hoof.*

EWIN, *claw.*

BLAIDD, *wolf.*

CENAU, *cub.*

LLWDN, *wether.*

FFAU, *den.*

SANTEIDDRWYDD, *holiness,
holy.*

CAWRFIL, *elephant.*

LLARPIO, *to maul.*

YSTYFNIG, *stubborn.*

PROFFWYD, *prophet.*

LLEWPARD, *leopard.*

ANIFAIL BRAS, *fatling.*

GWIBER, *viper.*

CRAFANC, *claw.*

PALF, *paw.*

CARW, *deer.*

GWAEDGI, *bloodhound.*

ARUCHEL, *very high.*

MYN, *kid, young goat.*

PORI, *to graze.*

YCH, *ox.*

DIDDYFNU, *to wean.*

TOI, *to cover.*

II

1. *Esboniwch jeddwl enw yr anifail hwn.*
2. *Pa ddau ddull sydd gan natur o amddiffyn anifeiliaid?*
3. *Rhoddwch restr o'r anifeiliaid y credwch chwi a fydd yn y byd ymhen mil o flynnyddoedd, a rhestr o'r rhai a ddiplanna.*

DREINIOG, *thorny, prickly.*
 MOLOCH, *restless.*
 MODFEDD, *inch.*
 LLADIN, *latin.*
 DALEN, *page.*
 SYRTHIO, *to fall.*
 GWDDW, *neck.*
 AFROSGO, *clumsy.*
 DILUN, *shapeless.*
 HAGR, *ugly.*
 GRUDD, *cheek.*

DINIWEIDRWYDD, *innocence.*
 SURO, *to sour.*
 ENAID, *soul.*
 CYMWYNAS, *favour.*
 AIFFT, *Egypt.*
 RHAIB, *rapacity, greed.*
 DYWALGI, *tiger.*
 YSGLYFAETH, *prey.*
 ERYR, *eagle.*
 ETIFEDDU, *to inherit.*

III

1. *Dywedwch a wyddoch am afonydd Amason a La Plata.*
2. *Ennwch a disgrifiwch anifeiliaid eraill sydd ag arfwisg.*

TEULU, *family.*
 TYLWYTH, *tribe.*
 DYFRHAU, *to water.*
 ARFWISG, *armour.*
 HELM, *helmet.*
 LLURIG, *armour.*

YSGWYDD, *shoulder.*
 CRAGEN GAEROG, *armoured shell.*
 NIWED, *harm.*
 TURIO, *to burrow.*
 CELANEDD, *carnage.*

IV

1. *Cymherwch gyrn y carw pan fyddont heb dyfu a phan fyddant wedi llawn dyfu.*

CORN, *horn.*
 CANGHENNOG, *branching.*
 GWAE, *woe.*
 AMDDIFFYN, *to defend.*

BYRFLEW, *short hairs.*
 MELFED, *velvet.*
 SWIL, *shy.*

V

1. *Disgrifiwch yr Ych Gwyllt yn ôl y darlun o hono yn yr ysgrif hon.*
2. *Ysgrifennwch unrhyw stori a glywsoch am Indiaid Cochion.*

CILIO, *to disappear.*
 GWAREIDDIAD, *civilization.*
 YCH GWYLLT, *buffalo.*
 AUROCH, *buffalo.*
 ARTH, *bear.*
 BLAIDD, *wolf.*
 CYFANDIR, *continent.*
 CYFFINIAU, *borders.*
 PAITH, *prairie.*
 GYR, *stock.*
 TYNDRA, *tightness.*
 MWNG, *mane.*

CRWMACH, *convexity, hump.*
 YMDRYBAEDDU, *to wallow.*
 LLAIID, *mud.*
 GWASGOD, *waistcoat.*
 CYNDDEIRIOG, *mad, furious.*
 PABELLU, *to camp.*
 HELWRIAETH, *hunting.*
 GWREGYS, *girdle.*
 SEBON, *soap.*
 BUWCH FLITH, *milk cow.*
 LLARIAIDD, *gentle.*

VI

1. *Ennwch rannau o anifeiliaid eraill a geir yng nghorff y Gnu.*
2. *Disgrifiwch yr anifail rhyfedd hwn.*

GWAR, *neck.*
 BARF, *beard.*
 GAFR, *goat.*
 GEN, *chin.*
 MERLYN, *pony.*
 EWIG, *deer.*
 OSGO, *inclination.*
 GWERYRIAD, *neighing.*

BARUS, *vicious.*
 AFROSGO, *clumsy.*
 EFFRO, *awake.*
 RHUO, *to roar.*
 CYNDDAREDD, *fury.*
 CARLAMU, *to gallop.*
 CHWYFIO, *to wave.*

VII

1. *Beth ydyw'r gwahaniaeth rhwng y lama a'r camel?*
2. *Pa ddefnydd a wneir o'r lama?*

LAMA, *llama*.
 CRWB, *hump*.
 TYWOD, *sands*.
 ESMWYTH, *easily*,
 smoothly.

PWN, *load*.
 CNAWD, *flesh*.
 SIWRNAI, *journey*.
 POER, *spit*.
 YSTYFNIG, *obstinate*.

VIII

1. *Pa flodau, adar, ac anifeiliaid newydd a ddaw i Gymru bob gwanwyn?*
2. *Disgrifiwch gwsg Arth y Mynyddoedd Creigiog.*
3. *Dywedwch y cwbl a wyddoch am y Mynyddoedd hyn.*
4. *Ai gwell gennych chwi fyw yng Nghymru neu ynteu yng ngwlad yr arth hon, a phaham?*

Y MYNYDDOEDD CREIGIOG, *the*
 rocky mountains.
 COG, *cuckoo*.
 PEGWN, *pole*.
 LLYSIEUYN, *herbs*.
 MEL, *honey*.
 MORGRUG, *ants*.
 AMHEUTHUN, *dainty*.
 CWRLID, *coverlet*.
 GWANCUS, *voracious*.
 YMPRYD, *fast*.
 IWRCH, IYRCHOD, *roebuck*.
 CADWYN, *chain*.

LLAIN, *long slip*.
 TALAITH, *state*.
 GOLUD, *wealth*.
 SECH, SYCH, *dry, arid*.
 IWERYDD, *Atlantic Ocean*.
 UNOL DALEITHIAU, *United*
 States.
 HALEN, *salt*.
 ARSWYD, *dread*.
 GLODDEST, *carouse*.
 LLETHU, *to overwhelm*.
 GWASGU, *to squeeze*.
 LLOCHES, *lair*.

IX

1. *Disgrifiwch gartref yr Arth Wen.*
2. *Pa liw ydyw lliw yr Arth, a phaham?*

HISPAEN, *Spain.*GWENYNEN, *bee.*DANTEITHFWYD, *dainty food.*TALP, *mass, lump.*NOETHLWM, *bare, bleak.*MORLO, *seal.*CYDNERTH, *well set.*FFYRNIG, *fierce.*HUFEN, *cream.*ESCIMO, *Esquimaux.*

X

1. *Edrychwch ar y darlun, a disgrifiwch y tsimpansí.*
2. *Pe daliech ddrych o flaen eich cath chwi, beth, tybed, a wnelai?*
3. *Edrychwch eto ar y darlun, a dywedwch ymha bethau y tebyga'r tsimpansí i ddyn, ac ymha bethau yr annhebyga.*

TSIMPANSÍ, *chimpanzee.*PLENTYN CROES, *cross child.*DRYCH, *looking glass.*MUD, *dumb.*MWNCI, *monkey.*YSTRYW, *trick.*SARFF, *serpent.*

XI

1. *Pa ddefnydd a wneir o'u cynffon gan wahanol anifeiliaid?*
2. *Rhoddwch hanes yr Oposwm.*

OPOSWM, *opossum.*EGNI, *effort, energy.*SUGNO, *to suck.*

XII

1. *Ymha le y trig y lemur ? Disgrifiwch ef.*
2. *Ennwch brif ryfedd bethau y mwnci hwn.*
3. *Ennwch anifeiliaid eraill sydd yn codi wedi nos.
Pam y codant yr adeg hon o'r nos ?*

GWIBIO, *to rove.*FFOREST, *forest.*MACHLUD HAUL, *sunset.*GWYLL, *dusk.*EIDDIL, *slender.*OFERGOELUS, *superstitious.*HUD, *magic, enchantment.*HIN, *weather.*DIREIDI, *mischievous.*SWRTH, *sullen.*CHWILIO, *to seek.*TYLLUAN, *owl.*TRYCHFIL, *vermin.*ANWYDOG, *cold.*ADDASU, *to adapt.*

XIII

1. *Beth ydyw ystyr "glwth" ? Sut y cafodd yr anifail yr enw hwn ?*
2. *Disgrifiwch rai o'i ystrywiau.*
3. *Adroddwch unrhyw stori a glywsoch am anifail direswm.*

Y GLWTH, *glutton.*WENCI, *weasel.*AR GAM, *unjustly.*GLWTH, *gluttonous.*CHWIM, *nimble.*CARLWM, *stoat.*DEALGARWCH, *understanding.*RHWYD, *net.*ABWYD, *bait.*DYFAIS, *scheme, invention.*HAMDDEN, *leisure.*PALF, *paw.*YMDYGIAD, *behaviour.*HELIWR, *hunter.*LLOFRUDDIAETH, *murder.*

XIV

1. *Ysgrifennwch ddisgrifiad o'r march prydferthaf a welsoch erioed.*
2. *Paham y pedolir ceffyl yn ein gwlad ni? A wyddoch am anifeiliaid eraill a bedolid unwaith?*

PEDOL, *horse-shoe.*
 MARCH, *horse.*
 LLUNIAIDD, *shapely.*

GWISGI, *alert, nimble.*
 DIFFEITHWCH, *desert.*
 LLUDDDEDIG, *tired.*

XV

1. *Disgrifiwch fel y cyfnewidia y morlo ei lîw.*
2. *Sut y lladd yr Escimo ef, a phaham?*
3. *Sut y dihangar?*

GWAWR, *hue.*
 CRYCH, *wrinkle.*
 LLANNERCH, *patch.*

MODRWY, *ring.*
 HEIGIO, *to shoal. to teem.*
 TRYFER, *harpoon.*

XVI

1. *Ceisiwch allan ymha leoedd y mae'r afonydd a'r llynnoedd a enwir yn y bennod hon.*
2. *Dywedwch debyg i ba beth ydyw y Manatî. a sut y tebyg iddo.*

MANATÎ, *manatee.*
 MORFIL, *whale.*
 PLANHIGYN, *plant.*

CAR, CERAINT, *friend.*
 DOFI, *to tame.*

XVII

1. *Pa bryd y chwery'r cwningod, ac ymha le ?*
2. *Disgrifiwch eu cartref.*
3. *Ymha le y cartrefa'r cwningod pan na bydd ganddynt dwll ?*
4. *Darluniwch hwy'n chwarae yng ngoleu'r lloer.*
5. *Paham y ma'e'n rhaid i wningen wrth glust a llygaid da ?*
6. *Paham y rhed cwningen â'i chynffon i fyny ? Disgrifiwch hwy.*
7. *Sut y casglant fwyd, a beth a fwytânt ?*

CWNINGEN, *rabbit.*
 NODDFA, *refuge.*
 CLODDIO, *to burrow.*
 TYNEL, *tunnel.*
 LLOCHES, *refuge.*
 EITHIN, *gorse.*
 MAGU, *to rear.*
 DIAMDDIFFYN, *defenceless.*
 PRIDD, *soil.*
 BLAGUR, *sprouts, buds.*
 MYNEDFA, *entrance.*
 GRUG, *heather.*
 CEUBREN, *hollow tree.*

PRANC, *prank.*
 BEUNYDD, *continual.*
 BRATH, *a bite.*
 YSGYFARNOG, *hare.*
 BANER, *banner, flag.*
 MILGI, *greyhound.*
 DARPARU, *to prepare.*
 YMDARO, *to shift for oneself.*
 RHISGL, *bark.*
 DIRISGLO, *to bark, to peel.*
 DIFA, *to destroy.*
 YMFUDWR, *emigrant.*
 EITHRIAD, *exception.*

XVIII

1. *A welsoch chwi eog rywbyrd ? Pa liwiau sydd arno ?*
2. *Ennwch gartrefi'r eog, a disgrifiwch hwy.*
3. *Ysgrifennwch hanes taith yr eog i fyny'r afon.*
4. *Disgrifiwch daith gyntaf yr eog bach i lawr yr afon.*

EOG, <i>salmon.</i>	YSGLYFAETH, <i>prey.</i>
MAWREDDOG, <i>grand, majestic.</i>	YMGLADDU, <i>to bury oneself.</i>
ABER, <i>confluence.</i>	DODWY, <i>to lay eggs.</i>
GREDDF, <i>instinct.</i>	GWRYW, <i>male.</i>
GRAEAN, <i>gravel.</i>	BENYW, <i>female.</i>
PYSGODYN, <i>a fish.</i>	YSFA, <i>hankering.</i>
GOFALU, <i>to care for.</i>	RHAEADR, <i>fall.</i>
LLAMU, <i>to leap.</i>	DIBYN, <i>precipice, drop.</i>
DYFRDWY, <i>Dec.</i>	GENWAIR, <i>fishing rod.</i>
HAFREN, <i>Severn.</i>	PLUEN, <i>fly, feather.</i>
WY, <i>Wye.</i>	TRYFER, <i>harpoon.</i>
ESGYN, <i>to ascend.</i>	MAETH, <i>nourishment.</i>
PENHWYAD, <i>pike.</i>	

XIX

1. *Beth a bair y gall dyrnogyn fyw yn yr un dŵr â phenhwyad?*
2. *Cyferbyniwch y dyrnogyn â'r cog. Ymha le y dodwa ei hwyau?*
3. *Ymha wledydd y ceir y dyrnogyn?*

DYRNOGYN, <i>perch.</i>	DIFFYG TREULIAD, <i>indigestion.</i>
YSGLYFIO, <i>to prey upon, to snatch.</i>	YSBLANDER, <i>splendour.</i>
ASGELL, <i>fin.</i>	BRITHYLL, <i>trout.</i>
GWRYCHYN, <i>bristle.</i>	DEOR, <i>to brood, to hatch.</i>

XX

1. *Ysgrifennwch yn eich dull eich hun yr adnodau yn y bennod hon a ddisgrifia'r locust.*
2. *Disgrifiwch y locustiaid, a dywedwch y cwbl a wyddoch amdanynt.*

LLWM, <i>bare.</i>	PRYF YR RHWD, <i>cankerworm.</i>
GLASWELLTYN, <i>a blade of grass.</i>	DATGUDDIAD, <i>revelations.</i>
YSU, <i>to devour.</i>	LLURIG, <i>armour.</i>
DIHAREB, <i>proverb.</i>	CARLAMU, <i>to gallop.</i>
TYRFA, <i>crowd.</i>	ADEN, <i>wing.</i>
CEILIOG RHEDYN, <i>grass hopper.</i>	DREWOD, <i>stink, smell.</i>

XXI

1. *Dywedwch sut yr amddiffynna yr anifeiliaid fferm, y gwyddoch chwi am danynt, eu hunain.*
2. *Disgrifiwch sut yr amddiffynir rhai anifeiliaid, adar, a phryfaid, gan eu lliw.*

GWYFYN LLWYDFELYN.
 GWYFYN, *moth.*
 YSGYTHR-DDANT, *fang, tusk.*
 HYBARCH, *very reverend.*
 DWRN, *fist.*
 CYNULLEIDFA, *congregation.*
 MORTHWYL, *hammer.*
 DRAENOG, *hedgheg.*
 CRWBAN, *tortoise.*

YSBRIGYN, *spring.*
 CRIN, *withered.*
 IAR MYNYDD, *grouse.*
 GLOYN BYW, *butterfly.*
 BRYCHNI, *spots.*
 LLEWPARD, *leopard.*
 YSBLENNYDD, *splendid.*
 TEIGR, *tiger.*

XXII

1. a 3. *Disgrifiwch olau pryfed tân.*
2. *Dywedwch hanes Syr Owen yn cyfarfod â'r pryfed tân.*

PRYF TÂN, *glow worm.*
 NID OEDD DICHON, *it was impossible.*
 DIDDOSRWYDD, *shelter.*
 MWYGLAIDD, *tepid, sultry.*
 GWEIRGLODD, *meadow.*
 CRIBIN, *rake.*
 MYFYRGAR, *studious.*
 TROFA, *corner.*
 BACHOG, *hooked.*

GWRYCH, *hedge.*
 LLETHR, *side.*
 YSMOTYN, *spot.*
 EDMYGU, *to admire.*
 DIDDIG, *contented.*
 LLAIN, *patch, slip.*
 SYLWEDD, *matter.*
 LLUSERN, *lamp.*
 JAC Y LANTAR, *glow worm.*

XXIII

1. *Pa nadroedd a geir yn ein gwlad ni ?*
2. *Beth a wnaech, pe'ch brethid gan neidr yng Nghymru ?*
3. *Dychmygwch neidr yn gwrando ar ganu, a disgrifiwch ei hystumiau.*

NEIDR (NADROEDD, NADREDD),
snake.

BRATH, *bite.*

NEIDR DDU, *viper, adder.*

NEIDR FRAITH, *grass snake.*

IGAM-OGAM, *zig-zag.*

GWENWYNIG, *poisonous.*

EGR, *sharp.*

POER, *spit.*

CYFFYRIWR, *chemist.*

GWENYNEN, *bee.*

NEIDR DDAFAD, *slow worm.*

ANGLADD, *burial.*

PERSON, *parson.*

GALARWR, *mourner.*

LLEDDE, *plaintive.*

SIGLO, *to rock.*

XXIV

1. *Dywedwch y cwbl a wyddoch am y geneu goeg.*
2. *Beth a wyddoch am y neidr ddafad ?*
3. *A wneir anghyfiawnder heddiw â thylwcyth y geneu goeg ?*

GENEU GOEG, *common lizard.*

MADFALL Y TYWOD, *sand lizard.*

YSWATIO, *to swat.*

GERFYDD, *by means of.*

TRALLOD, *trouble.*

YMRWYFO, *to struggle through, glide.*

MALWEN, *snail.*

PRYF DALL, *blind worm.*

GORCHUDD, *covering.*

TREM, *look.*

XXV

1. *Disgrifiwch y crocodeil a dywedwch ymha le y trig.*
2. *Adroddwch hanes yr aligetor.*
3. *Ai gwir "tlws pob peth bychan?" Profwch hyn gydag enghreifftiau.*

CROCODEIL, *crocodile.*
 ALIGETOR, *alligator.*
 AMLEN, *envelope.*

BWLED, *bullet.*
 CORS, *marsh.*
 FFROEN, *nostril.*

XXVI

1. *Pa ddefnydd a wneir o'r cruban?*
2. *Paham y mae'n dda cadw cruban yn eich gardd?*

PWYSAU PAPUR, *paper weight.*
 DWY-FRONNEG, *breastplate.*
 TWRCI, *Turkey.*
 GROEG, *Greece.*
 ASIA LEIAF, *Asia Minor.*

SAWDL, *heel.*
 CILIO, *to retreat.*
 DADEBRU, *to resuscitate, to*
revive.
 BRESYCH, *cabbage.*

XXVII

1. *Cyferbyniwch Cruban y Môr â Chruban y Tir.*
2. *Ymha le y ceir cruban y môr?*

CRWBAN Y MÔR, *turtle.*
 DIADDURN, *unadorned.*

ANOLYGUS, *unsightly.*

XXVIII

1. *Ceisiwch ddisgrifio y tro cyntaf y clywsoch y gog y flwyddyn hon.*
2. *Disgrifiwch y wennol.*
3. *Pa nifer o'r telynorion y sonnir amdanynt a glywsoch chwi. Tebyg i beth yw eu lliw a'u llun?*

DYCHWELIAD, *return.*
 BWRW'R GAELAF, *staying the winter.*
 CRWYDR, *wandering.*
 DILAI, *without ceasing, unreservedly.*
 GWAIR, *hay.*
 PLADUR, *sickle.*
 CRYGU, *to grow hoarse.*
 ATAL DWEUD, *stutter, impediment in speech.*
 CRAFFU, *to seek diligently, to peer.*
 CHWILIO, *to look for.*

GWENNOL, *swallow.*
 FFLACH, *flash.*
 TRYDAR, *chirp.*
 BEUDY, *cow-shed.*
 TELYNOR, *harpist, singing bird.*
 SWIL, *shy.*
 TELOR YR HESG, *sedge warbler.*
 GWICH HEDYDD, *grasshopper warbler.*
 PIPGANYDD, *pipers.*
 PIBGANYDD Y COED, *wood sandpiper.*
 GWDDW GWYN, *whitethroat.*
 RHEGEN YR YD, *corn-crake.*

XXIX

1. *Disgrifiwch yr ysguthan, ei hwyau, a'i rhai bach.*
2. *Ymha le y gwna ei nyth, a thebyg i beth yw?*

YSGUTHAN, *wood pigeon.*
 COLOMEN, *dove, pigeon.*
 TELAID, *graceful.*
 COCH GWINAU, *auburn.*
 MESEN, *acorn.*
 CEIRCH, *oats.*
 GWENITH, *wheat.*
 PYS, *pea.*

DERWEN, *oak tree.*
 DIYMADFERTH, *helpless.*
 TYMHERUS, *temperate.*
 PINWYDDEN, *pine tree.*
 FFAWYDDEN, *fir, birch tree.*
 ONNEN, YNN, *ash.*
 LLWYNOG, *fox.*

XXX

1. *Dywedwch ymha le y gwelir yr Wylan Benddu.
A welsoch chwi hi yn rhywle ?*
2. *Darluniwch hi yn eich geiriau eich hun.*

GWYLAN BENDDU, *sea-gull.*
ARADR, *plough.*
PRYDIAU BWYD, *meals.*
SWCH, *ploughshare.*
LLUNDAIN, *London.*
TAFWYS, *Thames.*

FFORDDOLYN, *passer by.*
YN EI AFIATH, *in his element.*
CAIN, *beautiful.*
TON EIGION, *ocean wave.*
GWENLLOER, *silvery moon.*
TWMPTH, *tump.*

XXXI

1. a 2. *Ail adroddwch ddisgrifiad Audubon o'r eryr
a'i ddull o ddal ei ysglyfaeth.*
3. *Paham y gelwir yr eryr yn frenin yr adar ?*
4. *Disgrifiwch nyth yr eryr.*

ERYR Y MÔR, *osprey.*
NATURIAETHWR, *naturalist.*
GORTHYMWR, *oppressor.*
BRIG, *top branches, twig.*
EWIG, *hind, deer.*
CYMAR, *partner.*
LLOERIG, *lunatic.*
ALARCH, *swan.*
UTGORN, *trumpet.*
TACLUS, *neat, tidy.*
CLAERWYN, *clear white.*
YSGRECH, *scream, shriek.*
PANG, PANGFEYDD, *convulsion,
pang.*
ANADLU, *to breathe.*
LLUDDDED, *weariness, fatigue.*
HYRDDIO, *to hurl.*

GORFOLEDD, *jubilantion.*
RHAIB, *rapacity.*
SYLLU, *to gaze.*
ERYR AUR, *golden eagle.*
ERYR COCH, *red eagle.*
ERYR YMERODROL, *imperial
eagle.*
TREM, *look.*
TRAHAUS, *arrogant.*
GWGUS, *frown, scowl.*
RHUTHR, *rush.*
MALURIO, *to crunch.*
ANGHYFANNEDD, *desolation.*
CLOGWYN, *crag.*
TALP, *mass, lump.*
BAS, *shallow.*
RHIENTI, *parents.*

XXXII

1. *Sut y cân Pibganydd y Graig?*
2. *O ba wledydd y daw i'n gwlad ni, ac i ba ran o Gymru y daw?*
3. *Disgrifiwch yr aderyn bach mwyn hwn.*

PIBGANYDD Y GRAIG, *Rock**Pipit.*GORFFENNAF, *July.*AWST, *August.*ALPAU, *Alps.*TRAETH, *sea shore.*LLANW, *tide.*YMYL, *edge.*BON, *bottom.*BRAU, *fragile.*BRYCHAU, *spots.*GWYMON, *seaweed.*

XXXIII

1. *Disgrifiwch hwyaden eider.*
2. *Pa ddefnydd a wneir o'i phllu? Sut y cesglir hwy?*

HWYADEN EIDER, *eider duck.*RHAÐLON, *kind.*TRAETHELL, *strand, sand bank.*GWLAN, *wool.*HAFN, *hollow, gorge.*HALLT, *salty.*EANGDER, *expanse.*MAI, *May.*MEHEFIN, *June.*YNYSIG, *islet.*MANBLU, *down.*CWILT, *quilt.*

XXXIV

1. *Ysgrifennwch am "holl dlysnî'r haf."*
2. *Pa fathau ar ehedyddion y sydd?*
3. *Disgrifiwch ein ehedydd ni.*
4. *A welsoch ei nyth? Tebyg i beth yw?*
5. *Sut y cerdda ac yr ehed?*
6. *Sut y cân?*

EHEDYDD, <i>skylark.</i>	EHEDYDD Y COED, <i>wood lark.</i>
CAE YD, <i>corn field.</i>	ENID, ESGUDOGYLL, EHEDYDD Y MAES, <i>skylark.</i>
ARLLWYS, <i>to pour.</i>	GWEFROL, <i>electric.</i>
EHEDYDD DU, <i>black skylark,</i> <i>golden skylark.</i>	CHWILOD, <i>beetle.</i>
EHEDYDD Y TYWOD, <i>shorelark.</i>	SIONCYN Y GWAIR, <i>grasshopper.</i>
EHEDYDD Y DIFFEITHWCH, <i>desert skylark.</i>	BARCUD, <i>kite.</i>
EHEDYDD Y WAUN, <i>meadow</i> <i>pipit.</i>	DEOR, <i>to hatch.</i>
Y CORR EHEDYDD, <i>pipit.</i>	NAID AC YSBONC, <i>jump and</i> <i>hop.</i>
EHEDYDD Y TRAETH, <i>shore</i> <i>lark.</i>	ENTRYCH, <i>firmament.</i>
	PLWM, <i>lead.</i>
	EDMYGYDD, <i>admirer.</i>

XXXV

1. *Pa nifer o wahanol eleirch sydd? Disgrifiwch hwy.*

ALARCH, ELEIRCH, <i>swan.</i>	CANGARŴ, <i>kangaroo.</i>
DOF, <i>tame.</i>	GWDDW, <i>neck.</i>

XXXVI

1. *Dywedwch y cubl a wyddoch am y ciwi, ynu*
2. *Disgrifiwch ei big rhyjedd.*

CIWI, <i>kiwi.</i>	BRODOR, <i>native.</i>
GWELADWY, <i>in sight.</i>	FFORTUN, <i>fortune.</i>
SIONC, <i>nimble.</i>	PRYF, <i>worm.</i>
CLOG, <i>cloak.</i>	PRYFED GENWAIR,



